

Rhan 2: Ffurfiadau lluosog a geir yn Rhan 1

Cyfeirir at Ran 1 o'r traethawd hwn fel 'y sampl'. Golyga '*' o flaen gair mai dyma ffurf hanesyddol debygol, ond un nas ceir yn yr iaith hyd y gwyddys. Weithiau mae'r lluosog hwn yn debyg o fod yn unffurf â'r unigol, ac fe'i dynodir gan '*' hefyd. Anwybyddir amrywiadau orgraffyddol yn y rhan hon o'r traethawd, ond gellir gweld yr amrywiadau hyn yn yr Atodiad. Rhestrir isod bob gair perthnasol o Ran 1, wedi trafod pob terfyniad. Dangosir y ffurf hanesyddol mewn llythrennau breision.

AFFEITHIAD-I

Parai terfyniad lluosog enwol enwau Indo-Ewropeaidd gwrywaidd, *bôn-o*, sef *-oi* > Clt. *-ī*, affeithiad-*i* mewn enwau ac ansoddeiriau yn y Frythoneg. Mewn Indo-Ewropeg, cymerai enwau a rhagenwau derfyniad lluosog enwol gwahanol, sef *-ōs* ac *-oi*. Disodlid *-ōs* gan y terfyniad rhagenwol yn y Gelteg.⁴⁰² Yr affeithiad gan *-ī* derfynol (anwybyddir yma affeithiad mewnol gan *-j-*) yn Gymraeg yw *a > ei* neu *y*; *e > y*; *o > y* ac *u > y*.⁴⁰³ Nid yw'n hollol glir pam y ceir yr amrywiad *ei / y < a*. Ceir *ei* yn amlach nag *y*, ac ni cheir *y* ond yn sillaf olaf geiriau lluosillafog, yn ôl Schrijver. Fe'i ceir yn aml ochr yn ochr ag *ei* yn y lluosog, megis yn *cadarn*, ll. *cedeirn*, *cedyrn* a *dwfr*, ll. *deifr*, *dyfr*. Yn ôl Schrijver:

It is remarkable that the alternation of *ei/y* in the same word seems to be limited to plural forms, i.e. forms which in MW were derived from the singular by a productive, morphophonemic process. This indicates that *y* and *ei < *a* did not arise as free variants but rather as phonetically conditioned allophones, whose distribution was subsequently obscured.⁴⁰⁴

Tardda lluosog enwol y geiriau diryw *bôn-o* o *-ā*, terfyniad nad yw'n peri affeithiad (gweler y bennod ar eiriau unffurf yn y lluosog a'r unigol). Nid oes enwau benywaidd â'u *bôn* yn *-o*.⁴⁰⁵ Ni restrir yn y categori hwn luosogion *bôn-o*, megis **cleddyf*, nad ydynt yn cynnwys llafariad a all gael eu haffeithio. Tybir iddynt hwy gael eu disodli gan ffurfiau eraill mewn cyfnod cynnar, ac fe'u rhestrir fel lluosogion sydd â'r un ffurf ag yn yr unigol.

Rhai hanesyddol yw 13 o'r 37 o luosogion isod. Dyma gyfartaledd eithaf uchel o'i gymharu, er enghraifft, ag *-oedd* (1 allan o 22) ac *-(i)on* (6 allan o 41).

⁴⁰² Sihler, *Comparative Grammar*, t. 261.

⁴⁰³ LHEB, tt. 312, 581.

⁴⁰⁴ SBCHP, t. 258.

⁴⁰⁵ CCCG, tt. 166-7.

AIS (asau)

BEIRDD (beirddion beirddon)

byrdd (byrddau byrddoedd) **benthyciad**

CAITH (ceithon - ond gw. y darlleniad llawysgrif)

CEDEIRN CEDYRN

*CEIDR (ceidrion ceidron)

CELYRN (celyrnedd)

cerrig (*CARREG caregau carreg)

CYNGRAIN (cyngreinon) CYNRAIN (cynreinion cynreinon)

CYNGYR (cynghorau)

cyrdd (*CERDD cerddau)

cyrff (corffau corfforion) **benthyciad**

cyrn (cornau) **benthyciad ?**

DEIFR / DYFR (dyfredd)

DEIGR (un./ll.) (dagrau)

deint (dannedd *DANT)

EBYR (aberoedd aberou)

engyl (angylion engylion) **benthyciad**

eirch (*ARCH eirchion)

eirf (arf (tf.) arfau) **benthyciad**

elyf (*ALAF alafoedd)

erchyll (ARCHOLLAU)

MEIB (mebion meibion meibionain meibon meibonain)

MEIRW (meirwion)

mŷr (MOROEDD)

nyrth (*NERTH nerthoedd)

pebyl (pobledd pobloedd) **benthyciad**

pebyll (pebyllau) **benthyciad**

saint (sant seinau seiniau) **benthyciad**

sŷr (SÊR (tf.))

tryth (TRETTHAU trethoedd)

TYLL (tyllau tyllon)

tyrf (tyrfain) **benthyciad**

tyweirch (TYWARCH (tf.) tywarchennau)

ynn (ONN (tf.))

ysb (esbyd) **benthyciad**

ysgyr (*YSGWR (tf.) ysgyrion)

-AIN

Dyma derfyniad enwau diryw bonau-*n* y Frythoneg. Gweler -ON am drafodaeth ar enwau gwrywaidd a benywaidd. Ailadeiledir ffurf unigol enwol y bôn hwn o *-*n*, a'r lluosog o *-*na*.⁴⁰⁶ Mae terfyniad lluosog y bonau-*o*, sy'n peri affeithiad-*i*, wedi disodli'r terfyniad *-*na* yn y Frythoneg. Ceir, felly, Clt. ll. **kammen-a* < **kang-smen-a* (cymh. H. Wydd. ll. *céimm-en(n)*), ond Brth. **kamman-ī* > Cym. *cemmein*.⁴⁰⁷ Yn ôl Stüber, 'this probably happened when the neuter gender was lost and therefore neuter *-*ā* was replaced by masculine *-*ī* < *-*oj* in *o*-stems.'⁴⁰⁸ Gwelir yr hen derfyniad yn Gal. *anuana* 'enwau' yn arysgrif Larzac.⁴⁰⁹

⁴⁰⁶ CCCG, t. 180.

⁴⁰⁷ SBCHP, t. 93; VKG II, t. 113.

⁴⁰⁸ Stüber, *Historical Morphology of N-Stems*, t. 28.

⁴⁰⁹ SBCHP, t. 94.

Disoddlir y terfyniad *-ain* bellach gan derfyniadau Cymraeg mwy cynhyrchiol, fel y gwelir yn achos *camau, cofiau, cofion a rhwymau* isod.

Ychwanegir *-ain* at y lluosog yn *-ion* yn achos *meib-ion-ain* a *meib-on-ain*. Cymharer H. Gym. *linn-ou-ein*, sy'n dangos y gellid defnyddio *-ain* i ffurfio lluosogion dwbl.⁴¹⁰

Terfyniad prin yw *-ain* yn yr ieithoedd Brythonaidd. Yn y sampl hwn, rhai gwreiddiol yw tair ffurf o'r naw (saith os cyfrifir *meibionain* a *meibonain*, a *cofain* a *cofiain* fel un). Ni ledai i fonau eraill i raddau helaeth ychwaith, ac nid oes ond un benthyciad yma sy'n cymryd *-ain* (efallai drwy gydweddiad â'r Lladin, gw. TWRF). Rhestra Stüber bedair ffurf luosog wreiddiol sicr yn *-ain*, ac yn eu plith mae H. Gym. *anu*, ll. *enuein*, Cym. C. *cnaw*, ll. *cnouein* yn ogystal â *cam* a *rhwym*. Mae tarddiad *cof*, ll. *cofein* a *llw*, ll. *llyein* yn dywyll, ond awgrymaf mai lluosog gwreiddiol yw *cofein* (gw. COF).

Mae Crn. *-yn* a Llyd. *-en* yn gytras ag *-ain*. Ceir y terfyniad hwn o hyd mewn Llydaweg Modern mewn geiriau lle y ceir y lluosog newydd mewn Llydaweg Canol, er enghraifft *lam* 'llam', ll. *lammou* a *lemmen*.⁴¹¹ Ceir ffenomen debyg yn achos y Cym. *tir*, lle y ceir lluosog newydd mewn Cymraeg Canol (*tiredd*) a lluosog hanesyddol (*tiroedd*) mewn Cymraeg Modern (gw. TIR).

CEMMEIN (camau)

COFAIN cofiain (cofiau cofion)

meibionain meibonain (MEIB meibion meibion meibon)

pennain (*PEN pennau pennawr cymh. unbyn)

RHWYMAIN (rhwymau)

teyrnain (*TEYRN teyrnedd teyrnon)

tyrfain (tyrf) **benthyciad**

-AINT

Ffurf luosog gydweddol yw hon yn *cereint* ac yn *es-gereint* a dyma'r unig enghreifftiau o'r terfyniad hwn yn y sampl. Y lluosog Celteg oedd **karantes* a rhoddodd hwn Cym. *carant*.

⁴¹⁰ Falileyev, *Etymological Glossary of Old Welsh*, t. 104.

⁴¹¹ Stüber, *Historical Morphology of N-Stems*, t. 28.

Drwy gydweddiad â'r bonau-*o*, disodlwyd **-es* gan **-oi* a esgorodd ar luosog newydd, sef *cereint*.⁴¹² Yng ngoleuni y Llyd. *kerent* a'r Crn. *kerens*, dyddia Schrijver ddisodliad **karant-es* gan **karant-ī* i gyfnod y Frythoneg. Er hynny, nodir bod y ddau luosog yn cydfodoli mewn Cymraeg Canol.⁴¹³

cereint (CARANT)

esgereint (esgar (un./ll.) ESGARANT)

-ANT

Enw bôn deintiol yn *-nt-* yw'r Cym. *carant*. Enghraifft ddiryw o'r bôn hwn yw *dant*, H. Wydd. *dét*.⁴¹⁴ Mae bonau-*nt* yn is-gategori o enwau Indo-Ewropeaidd sy'n gorffen â ffrwydrolion. Esbonia Sihler pam na cheir llawer o enghreifftiau yn yr ieithoedd Celtaidd:

Root nouns are the most elemental noun type and must have been numerous in the remote history of the parent language. But they are a relic class in all attested IE languages. OE for instance has some 15 root-nouns, and OIr. fewer still, compared to the dozens in G.⁴¹⁵

Terfyniad lluosog enwol Indo-Ewropeaidd y bonau hyn oedd **-es*, yn achos enwau gwrywaidd a benywaidd, felly **karant-es* > Cym. *carant*. Lluosog yr enwau diryw oedd **-H₂* > Clt. **-a*.⁴¹⁶

CARANT (cereint)

ESGARANT (esgar (un./ll.) esgereint)

-AU, -IAU

Dyma derfyniad bonau-*u* Indo-Ewropeaidd. Fe'u ffurfid ochr yn ochr â'r bonau-*i* lle y ceid *u* neu *w* yn y bonau-*u*, ac *i* neu *y* yn y bonau-*i*.⁴¹⁷ Cymharer sut y mae'r bonau-*n* a'r bonau-*r* yn

⁴¹² VKG II, t. 104.

⁴¹³ SBCHP, t. 396.

⁴¹⁴ CCCG, t. 176.

⁴¹⁵ Sihler, *Comparative Grammar*, t. 283.

⁴¹⁶ CCCG, t. 176; Sihler, *Comparative Grammar*, t. 286.

datblygu'n gyfochrog hefyd. Gwelir i'r terfyniad hwn ledu'n fawr: yn y sampl, cawn 13 o luosogion hanesyddol allan o 62. O'r gweddill, mae 45 o eiriau'n frodorol a 17 yn fenthyciadau. *-(i)au* yw'r terfyniad mwyaf poblogaidd, ar ôl *-oedd*, yn y sampl hwn.

Trafodir yr amrywiad rhwng terfyniadau gyda'r iod a'r rhai hebdi o dan -ON, -ION.

aberou (aberoedd EBYR)

ARCHOLLAU (erchyll)

arfau (arf (tf.) eirf) **benthyciad**

asau (AIS)

bannau (*BAN bannedd)

bleiddau bleiddiau (*BLAIDD bleiddiawr)

brodiau (BRODER brodorion brodyr)

bronnau (*BRON bronnydd)

BRYDAU brydiau

byddinau (*BYDDIN byddinawr byddinoedd)

byrddau (byrdd byrddoedd) **benthyciad**

CADAU (cadoedd)

caerau (caeroedd ceirydd) **benthyciad ?**

CANGAU ceingau ceingiau

calafennau (calaf (tf.)) **benthyciad**

camau (CEMMEIN)

caregau (*CARREG carreg cerrig)

carnau (*CARN carnedd (gw. nodiadau) carneddawr)

CELFYDDODAU (celfyddodion)

⁴¹⁷ Sihler, *Comparative Grammar*, t. 319.

cerddau (*CERDD cyrdd)

cethrau (cethrawr cethri) **benthyciad**

cleddyfau (*CLEDDYF cleddyfawr)

COELAU coelïau (coelion)

cofiaïu (COFAIN cofïain cofïon)

coffau (coffeïon) ?

corffau (corfforïon cyrff) **benthyciad**

cornau (cyrn) **benthyciad ?**

creadurau creaduriaïu **benthyciad**

creïrau creïriaïu (*CRAIR)

CYFREITHAU cyfreithïau

cynghorau (CYNGYR)

dafnau (defni) ?

dagrau (DEIGR (un./ll.))

deddfau (*DEDDF deddfon)

DIAU dyddïau

dolau (*DÔL dolydd)

DONIAU (donïon)

dreigau dreigïau (dragon dreigioedd) **benthyciad**

meillionau (MEILLION (tf.) meïllon)

meïriaïu (meïri merïon) **benthyciad**

neuaddau (neuaddawr) ?

oesau (*OES oesydd)

olwynau (*OLWYN olwynawr)

parau (*PÂR peri)

pebyllau (pebyll) **benthyciad**

pennau (*PEN pennawr pennain cymh. unbyn)

preiddau preiddiau (preiddiawr preiddioedd) **benthyciad**

PWYLLADAU (pwylladoedd)

rhannau (*RHAN rhannedd)

rhwymau (RHWYMAIN)

RHYDAU rhydiau (rhydon)

seinau seiniau (saint sant) **benthyciad**

swysau (swyson) **benthyciad**

sygnau (sygnoedd) **benthyciad**

TREISIAU (treision)

TRETHAU (trethoedd tryth)

tyllau (TYLL tyllon)

tyrau (tyrioedd) **benthyciad**

tywarchennau (TYWARCH (tf.) tyweirch)

ymchwelau (*YMCHWEL ymchwelion)

ysbrydiau (ysbrydoedd) **benthyciad**

ysgwydau (*YSGWYD (y)sgwydawr ysgwydydd)

-EDD

Yma, *blynedd* yw'r unig luosog gwreiddiol ag *-edd* ynddo mewn 11 o luosogion enwau brodorol. Terfyniad lluosog enwol bonau-*ī* Indo-Ewropeaidd oedd **-ijās* > Cym. *-edd*. Gorffennai'r unigol ag **-ī*, sy'n peri affeithiad yn y Gymraeg.⁴¹⁸ Mae hyn yn cryfhau'r casgliad nad yw'r geiriau isod, heblaw am *blynedd*, yn wreiddiol. Yn achos *ban*, er enghraifft, disgwyliid **bein* neu **byn* yn yr unigol.

Sylwer ar yr amrywiad rhwng *-oedd* ac *-edd* yn achos *brenhinedd* / *brenhinoedd*, *byssedd* / *byssoedd* a *pobledd* / *pobloedd*. Mae hyn yn debyg i *tiredd* mewn Cymraeg Canol o'i gymharu â *tiroedd* mewn Cymraeg Modern. Mae'n ddiddorol mai'r ffurf fodern sy'n hanesyddol gywir yn achos *tir*.⁴¹⁹ Cesglir, felly, mai terfyniad a dueddai i ledu drwy gydweddiad yw *-edd*.

bannedd (*BAN bannau)

blwyddynedd BLYNEDD

brenhinedd (brenhinoedd *BRENIN)

byssedd (bysawr *BYSSOEDD)

carnedd (gw. nodiadau) (*CARN carnau carneddawr)

celyrnedd (CELYRN)

dannedd (*DANT deint)

dyfredd (DEIFR/DYFR)

pobledd (pebyl pobloedd) **benthyciad**

rhannedd (*RHAN rhannau)

teyrnedd (*TEYRN teyrnain teyrnon)

tiredd (tirion *TIROEDD)

⁴¹⁸ CCCG, t. 170.

⁴¹⁹ VKG II, tt. 95-6.

-ER

Un o fonau-*r* prin yn y Frythoneg a restrir gan ieithyddion yw *brawd*, ac un arall yw *chwaer*, ll. Cym. C. *chwioed*, *chwioryd*, Cym. M. *chwiorydd*.⁴²⁰ Cytras yw H. Wydd. *brathir* a *siur*.⁴²¹ Yn Lladin ac mewn Groeg mae nifer o dermau carennydd yn y categori hwn hefyd.⁴²² Mae gan y bonau-*r* raddau yn *-e-* ac yn *-o-*: ‘Most *r*-stem nouns are built with the suffixes **-tor* “agent” and **-H₂ter-* “kinsman”.’ Cymharer yr ôl-ddodiaid **-en-* ac **-on-* sydd â’r bonau-*n*. Trinnir y ddau fôn gyda’i gilydd yn aml gan ieithyddion, gan eu bod yn debyg iawn, er nad yw’r unigol enwol yn debyg.⁴²³

Ceir felly amrywiad yn y bonau-*n*, ac yn y bonau-*r*, rhwng *-e-* ac *-o-*. Mae’r rhan fwyaf o fonau-*n* yr Indo-Ewropeg yn dangos y radd yn **-on-*.⁴²⁴ Cymharer y bonau-*r*: ‘here, too, the bulk of evidence is for *or*-stems, though old-looking *er*-stems are well attested: the kinship terms in **-H₂ter-* were certainly *e*-types’. Noder, er hynny, **swesor-* ‘chwaer’ yn **-or-*.⁴²⁵

Daw *-yr* yn *brodyr* o **-ter-oi-*, sy’n dod o **-ter-es-* gwreiddiol, o dan ddyllanwad y bonau-*o*. Ni cheir yr un peth yn Gernyweg nac yn Llydaweg, fel y gwelir yn y lluosogion H. Grn. *broder* a Llyd. C. *breudeur*.⁴²⁶

BRODER (brodiau brodorion brodyr)

-AWR

Rhestrir Crn. *-(y)er*; Llyd. *-(i)er* fel terfyniadau cyfatebol i *-awr* gan Pedersen e.e. yn Crn. *prenyer*, *prennyer* ‘coed’; Llyd. *kleze-ier* ‘cleddyfau’, *kle-ier* ‘cerrig’, *ilc’h-ier* ‘waledi’.⁴²⁷ Cytunir yn y traethawd hwn mai terfyniadau benthyg ydynt ond mae’n werth gofyn a allent fod wedi tarddu o’r bonau brodorol.

Dangoswyd bod cytundeb fod *broder* yn tarddu o radd yn **-er-* y bonau-*n*. Tybed a allasai’r hen **-or-* fod wedi rhoi Cym. *-awr*? Awgrymir yn ddamcaniaethol ll. **-ores* >

⁴²⁰ CCCG, t. 177.

⁴²¹ VKG II, t. 105.

⁴²² Sihler, *Comparative Grammar*, tt. 292-3.

⁴²³ Sihler, *Comparative Grammar*, tt. 287-9.

⁴²⁴ Sihler, *Comparative Grammar*, t. 288.

⁴²⁵ Sihler, *Comparative Grammar*, t. 289.

⁴²⁶ VKG II, tt. 105-6.

⁴²⁷ VKG II, t. 52.

*-ōres > *-āres > -awr. Daeth Morris Jones i'r un casgliad, ond nid esboniodd sut.⁴²⁸ Er hynny, nid esbonia hyn ll. *chwior < *swesores, ond dylid sylwi y rhestra Pedersen *swesores gyda gofynnod.⁴²⁹ Gellid datrys hyn drwy awgrymu mai *ō*, nid *o* fer, a geir yn *swesōres ac mewn geiriau eraill o'r tarddiad hwn.

Try IE *-ō yn *-ā mewn sillafau annherfynol.⁴³⁰ Ceir wedyn *-ā > -aw yn Gymraeg. Rhestra Pedersen, fel GPC, *swesōr ag *o* hir, ond ni rydd ond *-ores fel terfyniad lluosog.⁴³¹ Gwelir, wedi'r cyfan, fod y tarddiad canlynol yn debycach, felly.

Awgryma'r rhan fwyaf o'r ieithyddion fod y terfyniad lluosog -awr yn dod o'r Llad. -ārium. Cymharer -awr arall a fenthycwyd o'r Llad. -ārius ac a ddefnyddid i ffurfio *nomina agentis* unigol megis Cym. C. *porthawr* > Cym. M. *porthor*. Yn ôl Zimmer, 'this suffix is a loan from L -ārius, -āria, -ārium and -āre. It is used to form agent nouns, collectives and local nouns from substantives.'⁴³² Cymharer Gwydd. -(a)ire, e.e. *not-ire* 'ysgrifennydd'. Ceir -or ac -er yn Llydaweg ac yn Gernyweg, e.e. H. Grn. *darad-or* gl. *ostiarius*, *peb-er* gl. *pistor*; Llyd. *molin-or* 'melinydd', *barn-er* 'barnwr'.⁴³³ Daw terfyniad H. Wydd. *sanct-áir* o'r Llad. -ārium ond nid yw'r terfyniad hwn wedi lledu yn yr iaith honno.⁴³⁴

Mae hyn yn awgrymu i'r terfyniadau Lladin uchod roi terfyniadau *nomina agentis* yn yr ieithoedd Celtaidd i gyd, ond terfyniadau lluosog yn yr ieithoedd Brythonig yn unig. Ni chânt eu defnyddio yn yr un ffordd yn y gwahanol ieithoedd hyn, er hynny. Mae Cernyweg -(y)er yn brin iawn er bod Cym. -awr a Llyd. -(i)er yn gynhyrchiol ac yn gyffredin yn yr Oesoedd Canol yn achos y Gymraeg, a hyd y cyfnod modern yn y Llydaweg.⁴³⁵ Er bod enghreifftiau o -awr yn niferus mewn Cymraeg Canol, nis ceir mewn Cymraeg Modern. Mae hyn yn ddiddorol pan ystyriwn y nifer mawr o luosogion dwbl yn -er mewn Llydaweg Modern, megis yn achos *botei-er* '(sawl pâr o) esgidiau' < *bot-ou-ier*.⁴³⁶ *Carn-edd-awr* yw'r unig luosog dwbl Cymraeg yn y sampl ond sylwer y ceir -awr yn aml fel terfyniad geiriau a oedd â'r un ffurf i'w hunigol ac i'w lluosog yn wreiddiol (e.e. *bleidd-iawr*).⁴³⁷ Gair a all fod yn unigol a lluosog yw *aes-awr*. Ôl-ddodiad torfol oedd Cym. -awr yn wreiddiol, ond fe'i ceir ag ystyr lluosog weithiau, er enghraifft yn 'Pyll' yng ngherddi Llywarch Hen: 'Dichonat

⁴²⁸ WG, t. 210.

⁴²⁹ VKG I, t. 74.

⁴³⁰ LHEB, t. 301.

⁴³¹ VKG II, t. 105.

⁴³² Zimmer, *Word-formation*, t. 421.

⁴³³ Fleuriot, *Le vieux breton*, t. 359; VKG II, tt. 51-2.

⁴³⁴ VKG II, t. 52.

⁴³⁵ Nid ond lluosogion *pren* 'pren' a restrir yn achos Cernyweg, e.e. Lewis, *Llawlyfr Cernyweg Canol*, t. 12.

⁴³⁶ Acquaviva, *Lexical Plurals*, t. 250. Diolch i Dr Talat Chaudhri am dynnu fy sylw at y lluosogion dwbl

Llydaweg yn -er.

⁴³⁷ Yn achos wyth enghraifft allan o bymtheg yn y sampl.

ysteuyll o es[t]yll ysgwydawl'.⁴³⁸

Diddorol yw *-or* ac *-er* yn Llydaweg ac yn y Gernyweg. Yn ôl Jackson, ceid $\bar{o} > e$ mewn sillafau terfynol yn yr unfed ganrif ar ddeg yn y ddwy iaith hyn. Mae'n edrych fel pe bai *-or* ac *-er* yn cydfodoli am gyfnod, felly, yn achos y *nomina agentis* unigol a restrir uchod. Disgwylir, felly, barau lluosog tebyg yn *-(i)or* ac *-(i)er* ond ni wn am enghreifftiau.

Dywed Fleuriot ei bod yn bwysig peidio â chymysgu rhwng *-er*, o'r Lladin, ac *-er* sy'n derfyniad torfol Celtaidd ac mae'n tarddu'r ail *-er* o Brth. **-ro* neu **-rā*, gan roi fel enghreifftiau H. Gym. *clecir*, Cym. M. *clegyr* (tf.); H. Lyd. *clecher*, Llyd. M. *Kleger*; H. Wydd. *clocher*, *clochar* (tf.) < **klok-ero*.⁴³⁹ Mae'r terfyniad hwn yn wahanol eto i *-er* y bonau-*r* a geir yn Cym. *broder*; Llyd. *breuder* a.y.b.⁴⁴⁰

Rhestra D. Simon Evans bedair ar ddeg o enghreifftiau o *-awr* yn ei astudiaeth ar enwau ym marddoniaeth Beirdd y Tywysogion.⁴⁴¹ Seiliwyd gwaith Evans ar ddwy gyfrol, sef 5 a 3, yng nghyfres Beirdd y Tywysogion, ac ar Lawysgrif Hendregadredd a *Hen Gerddi Crefyddol* gan Henry Lewis.⁴⁴² Mae'n amlwg, er hynny, fod enwau niferus ag *-awr* ym marddoniaeth Gymraeg Canol.

Mae gennym un enghraifft bosibl o *-awr* > *-or* gyda datblygiad seinegol rheolaidd /au/ > /o/ mewn Cymraeg Canol. Ystyriwn *aes-awr*, *aes-or* a allai fod yn unigol ac yn lluosog. Mae'r ail ffurf yn brin; rhestrir dwy enghraifft yn GPC². Mae'n nodweddiadol na chymer *aes* luosogion eraill. Ai dyma pam y disodlwyd y gair hwn gan y gair cyfystyr *tarian* sydd â therfyniad lluosog mwy cyffredin?

Cytunaf â Lewis fod cysylltiad rhwng *-awr* ac *-or* hanesyddol, megis yn *chwior*, a dylid cofio bod y ddau wedi diflannu fel terfyniadau lluosog. Pe byddai *-awr* wedi mynd yn *-or* yn rheolaidd, a phe byddai un o'r ddau derfyniad *-or* (hanesyddol a newydd) wedi goroesi, fe fyddai hefyd wedi cryfhau'r naill drwy gydweddiad.⁴⁴³

Ni wn ond am un enghraifft o *-awr* mewn Hen Gymraeg, sef *poulloraur* yn MC 6 b.b. Cymharer *peullawr* yn Llyfr Taliesin, a H. Wydd. *pólaire*.⁴⁴⁴ Amheua Lemmen fod

⁴³⁸ EWSP, tt. 371, 408.

⁴³⁹ Fleuriot, *Le vieux breton*, t. 350; GOI, t. 170.

⁴⁴⁰ Ernault, E., 'Les pluriels bretons en *er*', ZCP 1 (1897), 233.

⁴⁴¹ Evans, D.Simon, 'Iaith y Llys a Beirdd y Tywysogion' yn Owen, Morfydd E. & Roberts, Brynley F. (goln), *Beirdd a Thywysogion cyflwynedig i R. Geraint Gruffydd*, Cardiff, 1996, t. 66.

⁴⁴² Evans, 'Iaith y Llys', t. 63.

⁴⁴³ Lewis, *Datblygiad*, t. 74.

⁴⁴⁴ Falileyev, *Etymological Glossary*, t. 133.

poulloraur yn lluosog gan ei fod yn glòs ar Llad. *pugillarem* (un.).⁴⁴⁵ Er hynny, mae *peullawr* yn Llyfr Taliesin yn enw unigol, a gwell deall *poullor-awr* fel ffurf luosog arno.⁴⁴⁶

aesawr (*AES (un./ll.))

bleiddiawr (*BLAIDD bleiddau bleiddiau)

byddinawr (*BYDDIN byddinau byddinoedd)

bysawr (byssedd *BYSSOEDD)

carneddawr (*CARN carnau carnedd (gw. nodiadau))

cethrawr (cethrau cethri) **benthyciad**

cleddyfawr (*CLEDDYF cleddyfau)

neuaddawr (neuaddau) ?

olwynawr (*OLWYN olwynau)

pennawr (*PEN pennau pennain cymh. unbyn)

pluawr (plu (tf.)) **benthyciad**

preiddiawr (preiddau preiddiau preiddioedd) **benthyciad**

rhialluawr (*RHIALLU (tf.) rhialluoedd cymh. LLU (tf.) lluoedd)

seirchiawr (seirch (un./ll.)) **benthyciad**

(y)sgwydawr (*YSGWYD ysgwydau ysgwydydd)

-I

Gweler -OEDD ac -YDD am drafodaeth bellach ar y cysylltiad rhwng Cym. *-i*, *-oedd* ac *-ydd*.

Terfyniad *bôn-s* yw Cym. *-i*. Yn draddodiadol, caiff ei darddu o **-esa*, sef terfyniad lluosog bonau-*s*. Ceir, er enghraifft, ll. Cym. C. *tei*, Cym. M. *tai* (deusill yn wreiddiol) <

⁴⁴⁵ Lemmen, Karianne, *The Old Welsh glosses in Martianus Capella revised and rearranged with newly found glosses*, thesis MA (electronig), 2006, t. 25.

⁴⁴⁶ LPBT, t. 218.

**tegesa*.⁴⁴⁷ Mae Gwydd. *tige* ‘tai’ yn gytras a gwelir mai *-e* yw’r terfyniad lluosog yn yr iaith honno. Yn yr Wyddeleg, *-i* yw terfyniad lluosog y bonau-*i* ac awgryma Thurneysen Gwydd. *-i* < **-īs* < **-ijes* < **-ejes*.⁴⁴⁸

Os cytunir â Schrijver fod y terfyniad diryw **-es-a* yn troi’n **-es-ī* (gw. -OEDD) cyn yr apocope drwy gydweddiad â bonau-*o* gwrywaidd, mae’n debyg fod yr enwau diryw *bôn-s* a ddaeth yn fenywaidd wedi mabwysiadu’r terfyniad lluosog benywaidd **-ās*, felly **-es-a* > **-es-ās* > **-īah* > Brth. **-i*. Cymysgid rhwng yr *-i* hon a’r hen derfyniad lluosog diryw *-i* o **-es-a*, a welir yn *tei* uchod.⁴⁴⁹

Ar wahân i *defni*, sy’n amheus, ni cheir yn y sampl hwn enwau a oedd â’u lluosog yn *-i* yn wreiddiol. Er bod y sampl yn weddol fach, gwelir tuedd i *-i* gael ei hychwanegu at luosogion diderfyniad megis *pâr* a *tref* ac at enw torfol (ac felly’n ddiderfyniad) yn achos *dry*s. Mae’n ddiddorol i *-i* ddod yn gynhyrchiol iawn yn Gymraeg er bod enghreifftiau o *-i* hanesyddol yn brin iawn; ni wn ond am *tei*. Fe’i hychwanegir at fenthyciadau megis *meiri* (< Lladin) ac, mewn enghraifft ddiweddar, *sosbenni* (< Saesneg). Cymhara Schrijver ymlediad y terfyniad hwn â’r terfyniad *bôn-s* Alm. *-er* a oedd hefyd yn brin yn yr iaith gynnar.⁴⁵⁰

Mae’r rhan fwyaf o fonau-*s* Indo-Ewropeaidd yn ddiryw. Ceir enwau gwrywaidd a benywaidd yn Indo-Iraneg ac mewn Groeg (ond yn brin), ond ceir llawer ohonynt yn Lladin. Noder, er hynny: ‘in L, the TYPE is commonplace, though genuinely old-looking forms are not numerous.’⁴⁵¹ Gall fod lluosogion Cymraeg gwreiddiol yn *-i* yn brin am i’r genedl ddiryw gael ei cholli, fel y gwelir uchod, er ei bod hi’n bosibl bod *-i* newydd wedi codi fel terfyniad i enwau benywaidd.

Yn Gernyweg, y terfyniad cytras yw *-y*: *bran* ‘brân’, ll. *bryny*; *castel* ‘castell’, ll. *castilly*; *mowes* ‘morwyn’, ll. *mowysy*. Yn Llydaweg ceir *-i* (*-y*): *bran*, ll. *brini*; *bleiz* ‘blaidd’, ll. *bleizi*.⁴⁵²

cethri (cethrau cethrawr) **benthyciad**

defni (dafnau) ?

drysi (DRYS (tf.))

meiri (meiriau merion) **benthyciad**

⁴⁴⁷ CCCG, tt. 30, 173; SBCHP, t. 393.

⁴⁴⁸ GOI, t. 193.

⁴⁴⁹ SBCHP, t. 396.

⁴⁵⁰ SBCHP, t. 393.

⁴⁵¹ Sihler, *Comparative Grammar*, tt. 308-9.

⁴⁵² Lewis, *Llawlyfr Cernyweg Canol*, t. 12; Id., *Llawlyfr Llydaweg Canol*, t. 12.

peri (*PÂR parau)

trefi (*TREF trefydd)

-IAID

Hwn yw lluosog enwau â'r ôl-ddodiad *-iad* (H. Gym. *-iat*) pan fônt yn dynodi gweithredydd.⁴⁵³ Terfyniadau cytras yw H. Grn. a H. Lyd. *-iat*; H. Wydd. *-ith*, *-(a)id* (terfyniad bôn-*i*). Ceir lluosog H. Lyd. yn *-ieti* yn *torleberieti* 'proffwydi' < **torleberiat*; ni cheir lluosogion mewn Hen Gernyweg.⁴⁵⁴ Mae'r terfyniadau Celtaidd i gyd yn dynodi gweithredydd. Cymharer, er enghraifft, H. Gym. *centh(i)liat* 'canwr' (*cathl* + *-iad*) â H. Wydd. *cétl(a)id*.⁴⁵⁵ Awgryma Morris Jones darddiad o'r Brth. **-jatis* (neu **-jatā*). Fe'i gwelir yn Gal. Ναμαύσατις 'o Nemausus'.⁴⁵⁶ Ni thrafoda Stüber **-jatā* ond cytuna mai **-jatīs* < **-jatejes* yw'r tarddiad.⁴⁵⁷

Ffurf ddiddorol yw *ceis-aid*. Ceir *-aid* arall (Llyd. *-ad*), a ychwanegir at enwau yn *ceg-aid*, *cofl-aid* a.y.b. i ddynodi mesur. Daeth y ddeusain yn unsain yn gynnar, a cheir e.e. *breich-et*.⁴⁵⁸ Er hynny, nid 'mesur X' yw ystyr *ceisaid*, a chymerir mai amrywiad ar sillafu *ceisiaid* ydyw.

Cafwyd lluosog newydd yn *-on* yn gynnar gan enwau yn *-iad*, fel y gwelir yn *ceisiadon* yn Llyfr Aneirin a Llyfr Taliesin, a *beiddiadon* yn Llyfr Aneirin.⁴⁵⁹

BEIDDIAID (beiddiadon)

CEISAID (-iaid yn rheolaidd) (ceisiadon)

-OD

Dyma derfyniad sy'n tarddu o'r Lladin ac sydd hefyd yn frodorol. Mae gennym un enghraifft frodorol sicr yn *llygod* < **lukot-es*. Ar ôl colli'r sillafau terfynol, dehonglid **-ot* fel terfyniad lluosog, er ei fod yn rhan o fôn y gair, o'i gymharu â'r unigol *llyg* < **lukōt-s*. Cryfheid

⁴⁵³ GPC.

⁴⁵⁴ Stüber, *Historical Morphology of N-stems*, t. 34.

⁴⁵⁵ Falileyev, *Etymological Glossary*, t. 26; GOI, t. 170.

⁴⁵⁶ GOI, t. 171; WG, t. 233.

⁴⁵⁷ Stüber, *Historical Morphology of N-stems*, t. 34.

⁴⁵⁸ Hemon, *A Historical Morphology and Syntax of Breton*, t. 27; Zimmer, *Word-formation*, tt. 291-2.

⁴⁵⁹ G, tt. 54a, 125a.

dehongliad lluosog *-od* gan fenthyciadau o'r Lladin megis *pysg-od* < *piscātus* / *piscatum* (cymh. *pysg* < *piscis*) sy'n enw torfol, ond mae'n debyg y câi ei ddeall fel lluosog.⁴⁶⁰ Ceir *-od*, felly, o fonau deintiol Celtaidd yn **-ot-* > H. Gym. *-ot* > Cym. C. a Cym. M. *-od*; ac o'r Lladin *-āt-* > Cym. C. *-awd*, Cym. M. *-od*.⁴⁶¹ Yn yr ail ffordd, ceir enw unigol *pechod* < Llad. *peccatum* a rhai torfol megis *pysgod*.⁴⁶²

Daw *-od* yn derfyniad enwau anifeiliaid yn arbennig, e.e. *cathod*, *llwynogod*. Fe'i ceir drwy gydweddiad yn *balaod* isod. Cyfetyb i'r Llyd. *-ed*, e.e. *eugenn* 'eidion', ll. *egennet* ac i'r Crn. *-es*, e.e. *pysc*, ll. *puskes*.⁴⁶³

balaod (BALAWON)

pysgod (pysg) **benthyciad**

-OEDD, -IOEDD

Ystyrir, yn draddodiadol, fod y terfyniad lluosog Cym. *-oedd* yn perthyn i ddau fôn, sef *-i* a *-s*. Yn y sampl hwn, ceir *moroedd*, sy'n enghraifft o fôn-*i*, a **byssoedd* a **tiroedd*, o fôn-*s*.

Terfyniad unigol bonau-*i* Indo-Ewropeaidd Cynnar oedd **-is* (g.), ac **-i* (dir.). Y terfyniad lluosog gwrywaidd oedd **-ejes*, sy'n rhoi Cym. *-oedd*, yn ôl Pedersen a Jackson. Y terfyniad lluosog diryw oedd **-ija*. Ym marn Pedersen a Jackson, rhydd y terfyniad lluosog genidol **-ijōm* y terfyniad Cym. *-ydd*, ond mae Schrijver yn amau hynny gan na cheir enghreifftiau eraill lle y tardda dau derfyniad lluosog o gyflyrau gwahanol yr un bôn.⁴⁶⁴ Mae Schrijver, felly, yn ailystyried tarddiad *-oedd* ac *-ydd* yn llwyr. Cynigia fod *-ydd* yn tarddu o **-ejes* (gw.-YDD) ac awgryma fod Cym. *-oedd* yn perthyn i'r bonau-*s* diryw.

Diryw oedd bonau-*s* Indo-Ewropeaidd, ar wahân i nifer bach o enwau gwrywaidd a benywaidd mewn Indo-Iraneg ac mewn Groeg, er y ceir nifer mawr ohonynt yn Lladin (gw. -I).⁴⁶⁵ Tarddiad yr enwau diryw a welir yn y Gelteg yw **-os* yn yr unigol enwol, ac **-esa* yn y lluosog enwol.⁴⁶⁶ Yn ôl tarddiad Schrijver, ceid **-esa* > **-esī* (gyda **-ī* < **-oi* o'r bonau-*o* drwy gydweddiad) > **-eī* > **-ēī* > *-oedd*.⁴⁶⁷ Mewn ffordd debyg, ymledai **-ī* y bonau-*o* i'r

⁴⁶⁰ GPC; Zimmer, *Word-formation*, tt. 414-15.

⁴⁶¹ Zimmer, *Word-formation*, t. 415.

⁴⁶² Zimmer, *Word-formation*, t. 414.

⁴⁶³ Lewis, *Llawlyfr Cernyweg Canol*, t. 12; Lewis & Piette, *Llawlyfr Llydaweg Canol (diwygiedig)*, t. 12.

⁴⁶⁴ CCCG, t. 172; LHEB, tt. 350-1; SBCHP, t. 393.

⁴⁶⁵ Sihler, *Comparative Grammar*, t. 308.

⁴⁶⁶ CCCG, t. 173.

⁴⁶⁷ SBCHP, t. 395.

bonau-*n* diryw (gw. -AIN). Awgrymir hyn gan Pedersen yn anuniongyrchol: ni chynigia derfyniad lluosog Cymraeg sicr yn ei bennod ar fonau-*s*, fel y gwna yn achos y bonau-*i*, ond rhestra enghreifftiau o luosogion bôn-*s* yn -*oedd*, gan gynnwys *tiroedd*.⁴⁶⁸

Cafwyd enwau bôn-*i* o bob cenedl yn Indo-Ewropeg er bod y rhai diryw yn brin.⁴⁶⁹ Nid oes ond un gair brodorol o 14 yn y sampl hwn sy'n cymryd -*oedd* yn wreiddiol, sef *moroedd*. Byddai **bysssoedd* a **tiroedd* yn lluosogion hanesyddol *bys* a *tir*, ond ni cheir y ffurf **bysssoedd* o gwbl yn y Gymraeg. Daeth *tiroedd* yn lluosog modern rheolaidd ond nis defnyddid yn y cyfnod dan sylw. Yn sampl y thesis hwn, -*oedd* yw'r terfyniad mwyaf poblogaidd a gymerir gan eiriau benthyg.

Trafodir yr amrywiad rhwng terfyniadau gyda'r iod a'r rhai hebddi o dan -ON, -ION.

aberoedd (aberou EBYR)

alafoedd (*ALAF elyf)

amdrychioedd (*AMDRWCH amdrychion cymh. trychion trychon)

brenhinoedd (brenhinedd *BRENIN)

brooedd (*BRO bröydd)

byddinoedd (*BYDDIN byddinau byddinawr)

byrddoedd (byrdd byrddau) **benthyciad**

*BYSSOEDD (bysawr byssedd)

cadoedd (CADAU)

caeroedd (caerau ceirydd) **benthyciad ?**

dreigioedd (dragon dreigau dreigiau) **benthyciad**

MOROEDD (mŷr)

nerthoedd (*NERTH nyrth)

pobloedd (pebyl pobledd) **benthyciad**

preiddioedd (preiddau preiddiau preiddiawr) **benthyciad**

⁴⁶⁸ CCCG, t. 173.

⁴⁶⁹ Sihler, *Comparative Grammar*, t. 311.

pwylladoedd (PWYLLADAU)

rhialluoedd (*RHIALLU (tf.) rhialluawr cymh. LLU (tf.) lluoedd)

sygnoedd (sygnau) **benthyciad**

*TIROEDD (tiredde tirion)

trethoedd (TRETTHAU tryth)

tyrioedd (tyrau) **benthyciad**

ysbrydoedd (ysbrydiau) **benthyciad**

-ON, -ION

Yr un yw terfyniadau'r bonau cytseiniol Indo-Ewropeaidd er bod rhai manylion yn dibynnu ar nodweddion y bôn.⁴⁷⁰ Terfyniad enwau bôn-*n* yw Cym. *-on*. Terfyniad Celteg unigol enwol gwrywaidd a benywaidd oedd *-ō, â'r lluosog *-*en-es* neu *-*on-es*.⁴⁷¹ Trinnir bonau-*n* a bonau -*r* fel arfer gyda'i gilydd, am eu bod yn debyg, heblaw yn achos yr unigol enwol.⁴⁷² Yn ôl Sihler, 'both stems came in two types: those with *o*-grade for the full grade of the stem, and those with *e*-grade.' Mae *-*on*- yn fwy cyffredin o lawer nag *-*en*- yn y bonau-*n*. Enghraifft draddodiadol o enwau yn *-*en*-, a'r unig enghraifft yn Frythoneg, yw IE **uk^wsen*- 'ych', ll. **uk^wsen-es* > Cym. *ychen*, Crn. *ohan*, Llyd. *ouhen*.⁴⁷³

-on yw'r terfyniad cytras yn y Gernyweg ac yn y Llydaweg. Fe'i ceir hefyd mewn enwau benthyc o enwau bôn-*n* Lladin megis yn achos Cym. *lleidr*, ll. *lladron*; Crn. *C. lader*, ll. *ladron*; Llyd. *C. lazr*, ll. *lazron* < Llad. *latrō*, wedi eu benthycu drwy'r Lladin Brydeinig un. **latrī* a'r ll. **latrones*. Awgryma Stüber y ceir y ffurfiau unigol Cernyweg a Llydaweg heb affeithiad oherwydd cydweddiad â'r lluosog.⁴⁷⁴ Yn y sampl hwn, mae *draig*, ll. hanesyddol *dragon*, yn fenthyciad o fôn-*n* y Llad. *dracō*, ond sylwer na cheir enghreifftiau o *dragon* â'r ystyr 'dreigiau' (gw. DRAIG).

Nid yw'r rhesymau dros yr amrywiaeth rhwng *-on* ac *-ion* yn hollol glir. Noda Stüber: 'the ending *-on* then spread to other stems (cymh. VKG II 107) but remains far less common

⁴⁷⁰ Sihler, *Comparative Grammar*, t. 278.

⁴⁷¹ CCCG, t. 178.

⁴⁷² Sihler, *Comparative Grammar*, tt. 287-8.

⁴⁷³ Sihler, *Comparative Grammar*, t. 288; Stüber, *Historical Morphology of N-Stems*, t. 29.

⁴⁷⁴ LHEB, t. 593; Stüber, *Historical Morphology of N-Stems*, t. 29.

than *-yon* in all of the British languages.⁴⁷⁵ Cefnogir hyn gan y sampl hwn lle y ceir 34 o ffurfiau yn *-ion* a 31 yn *-on* er nad yw'r gwahaniaeth yn fawr iawn. Digwydd *-on* ac *-ion* yn aml iawn fel terfyniadau i'r un gair yn y sampl. Yn ogystal, gall *-on* weithiau sefyll am *-ion* mewn Cymraeg Canol am fod yr *-i-* yn cael ei cholli yn iaith llawer o destunau'r cyfnod, fel y deil i wneud yn nhafodieithoedd De Cymru hyd heddiw. Er enghraifft, gwelir affeithiad yn *meibon* a dengys hyn mai *-ion*, nid *-on*, yw'r terfyniad cydweddol gwreiddiol oherwydd bod *-i-* wedi peri'r affeithiad ym môn y gair (gw. MAB). Dengys Peter Wynn Thomas y ceir *-on* mewn llawysgrifau canoloesol deheuol lle y ceir *-ion* yn yr un gair mewn rhai o'r Gogledd. Cymharer, er enghraifft, *eydyon* yn Llyfr Iorwerth ag *eidon* yn Llyfr Blegywryd a'r ynganiad gogleddol modern /keinog/ a'r ynganiad deheuol /keinog/ 'ceiniog'.⁴⁷⁶

Cefnogir hyn i raddau gan astudiaeth Russell ar ôl-ddodiaid felar yn yr ieithoedd Celtaidd a'i gymhariaeth o ddefnydd *-on* ac *-ion* mewn chwe llawysgrif. Cyfrifa Russell bymtheg ffurf yn *-ion* yn CA ond ni cheir ganddo'r un enghraifft o *-on*. Er hynny, gweler y drafodaeth ar YSGLYF am eithriad posibl yn llaw B. Dim ond un enghraifft o *-on* a geir yn BBC. Mae Russell yn trin pedair llawysgrif arall a gwelir fod *-ion* i'w gael yn amlach o lawer nag *-on*; hyn yn oed yn Llyfr Blegywryd (saith ffurf yn *-ion*, dwy ffurf yn *-on*) a ystyrir fel llawysgrif o'r De.⁴⁷⁷ Mae *-ion* yn fwy poblogaidd hyd yn oed mewn llawysgrifau lle y ceir y ffurf heb iod yn amlach mewn ôl-ddodiaid eraill megis *-(i)og* ac *-(i)ad*.⁴⁷⁸ Mae'r gwahaniaeth rhwng y Gogledd a'r De yn bwysig, felly, ond ni all mai dyna'r unig reswm am ddsbarthiad *-on* ac *-ion*.⁴⁷⁹

O ran ei ddsbarthiad ceir bod *-ion* yn fwy poblogaidd nag *-au* /*-iau* ac *-oedd* / *-ioedd*. Yn y sampl hwn, ceir *-iau* yn 18 gair allan o 62 a cheir *-ioedd* ym mhedwar gair allan o 22. Mae'n edrych fel pe bai'r iod yn cael ei harfer yn aml lle y dynodir yr affeithiad ym môn y gair, e.e. *dreigioedd*, *preiddioedd*, *bleiddiau*, *ceingiau*, *creiriau*, *dreigiau*, *meiriau*, *preiddiau*, *treisiau* (ffurfiau unigol Cym. C. *dreig*, *preidd* a.y.b.). Noda Russell yr un peth yn achos yr ôl-ddodiad *-iog*: 'On the pattern of *-iad*, it would be expected that *-iog* would regularly cause vowel affection. However, it is extremely difficult to find any clear examples; most apparent examples already show vowel affection in the base, e.g. *beichiog* : Middle Welsh *beich*'.⁴⁸⁰ Gall hyn esbonio ffurfiau megis *meibion*. Yr wyf wedi esbonio'r ffurf fel *mab* + *-ion* lle y ceir affeithiad *mab* > *meib* gan y terfyniad. Gellid awgrymu, hefyd, *meib* (ll.) + *-ion* lle yr

⁴⁷⁵ Stüber, *Historical Morphology of N-Stems*, t. 29.

⁴⁷⁶ Wynn Thomas, Peter, 'Middle Welsh Dialects: Problems and Perspectives', BCS 40 (1993), 26-7.

⁴⁷⁷ Russell, Paul, *Celtic Word-Formation: the Velar Suffixes*, Dublin, 1990, t. 43.

⁴⁷⁸ Russell, *Velar Suffixes*, t. 43.

⁴⁷⁹ Russell, *Velar Suffixes*, t. 49.

⁴⁸⁰ Russell, *Velar Suffixes*, t. 45.

ychwanegir *-ion* at y ffurf affeithiedig er mwyn creu lluosog newydd amlycach na'r hen lluosog *meib*. Er hynny, bydd yn rhaid astudio dosbarthiad y ffurfiau gydag iod a hebddi bellach, a chyda sampl mwy helaeth na hwn.

Mae'n bwysig cofio mai astudiaeth fwy ansoddol na mesurol sydd yma: ni chyfrifir pob lluosog sawl gwaith, ond rhestrir pob ffurf benodol unwaith. Er hynny, gwelir, heb ddim amheuaeth, fod y ddau derfyniad *-on* ac *-ion* yn gyffredin iawn fel terfyniadau cydweddol; nid oes ond chwe lluosog gwreiddiol yn *-(i)on* allan o 65. Ategir hyn gan astudiaeth D. Simon Evans ar ffurfiau lluosog yn Llawysgrif Hendregadredd, yn *Hen Gerddi Crefyddol* ac yng nghyfrolau 3 a 5 o *Gyfras Beirdd y Tywysogion*. Fe gyfrifa dros ddau gant o ffurfiau lluosog yn *-(y)on*, o'i gymharu ag *-(y)eu* (tua 185 o enwau) ac *-oedd* (44 o enwau).⁴⁸¹ Yn achos geiriau cytras, ceir Crn. *-(y)ow* a Llyd. *-(i)ou* yn aml lle y digwydd *-ion* yn y Gymraeg.⁴⁸²

Mae dadlau mawr ynghylch tarddiad *-ion*. Fe'i terddir gan Pedersen a Morris Jones o **-jones* ond ni cheir esboniad diamwys ganddynt. Awgryma Pedersen fod lluosog y bonau *-io*, *-o* ac *-ā* a'r terfyniad *-on* wedi ymgymysgu.⁴⁸³ Golyga hyn fod y terfyniad *-ion* yn tarddu o'r cyfnod cyn yr apocope. Cymharer Stüber, er hynny: 'of all the Welsh nouns with a plural *-yon* there is not a single one with a reasonably certain exact cognate in any other language which would show it to be an old *n*-stem.'⁴⁸⁴

Gellid tarddu *meillion*, sy'n dod o **meltion-* yn ôl Blom, o **-jones* (gw. MEILLIONEN).⁴⁸⁵ Y broblem yw nad oes gan *meillion* ffurf unigol yn **meill* yn y cyfnod cynnar. Byddai hyn yn cyflawni amodau Stüber, sef 'the suffix **-ion* can only be old in formations that show final *i*-affection in the singular and internal *i*-affection in the plural.' Mewn Cymraeg Modern, ceir adffurfiad *mill* un. / ll. o'r ffurf lafar *millon* 'meillion', ond oherwydd iddi ymddangos gyntaf yn y ddeunawfed ganrif, hyd y gallwn farnu, nid yw'n berthnasol i awgrym Stüber.⁴⁸⁶

Awgryma Stüber fod *-ion* yn gysylltiedig â datblygiad *nomina agentis* yn y Frythoneg ac nad oes modd ei darddu'n syth o hen fonau-*n*. Cysyllta Stüber *-ion* â datblygiad *-ydd* sydd hefyd yn ffurfio *nomina agentis*. Dadleua y byddai dwbledi o ansoddeiriau yn **-ijo-* ac enwau yn **-ijon-* yn y Gelteg megis **karijo-* 'pertaining to cutting' a **karijon-* 'the one pertaining to cutting'. Byddai'r ffurfiau yn **-ijon-* yn tueddu i ddisodli'r rhai yn **-ijo-*. Cawn wedyn Brth. **keriðī*, ll. **kerijones* > naill ai **keriðjones* gyda *-ð-* o'r unigol; neu **kerijon-* ar

⁴⁸¹ Evans, 'Iaith y Llys a Beirdd y Tywysogion', tt. 65-6.

⁴⁸² Stüber, *Historical Morphology of N-Stems*, tt. 37-8.

⁴⁸³ VKG II, t. 108.

⁴⁸⁴ Stüber, *Historical Morphology of N-Stems*, t. 30.

⁴⁸⁵ Blom, 'The Welsh Glosses in the *Vocabularium Cornicum*', 27.

⁴⁸⁶ GPC.

ôl yr apocope > **keriðjon*. Pa fodd bynnag, y ffurfiau modern yw Cym. *crydd*, ll. *cryddyon*; Llyd. *kere*, ll. *kereon*.⁴⁸⁷

Dengys enghreifftiau megis *meibion* a *gweision* i *-ion* gael ei ychwanegu at eiriau sy'n dynodi pobl. Mae'n debyg mai datblygiad yn y Frythoneg ydyw; cymharer Crn. C. *gwesyon* / *guesyen* a *mebyon* / *mebyen*, a Llyd. C. *guysion* / *guisien* a *mibien*. Noder hefyd Cym. *dynyon* a *brodorion*.⁴⁸⁸

angylion engylion (engyl) **benthyciad**

amdrychion cymh. trychion trychon (*AMDRWCH amdrychioedd)

arwyddion arwyddon (*ARWYDD)

BALAWON (balaod)

beiddiadon (BEIDDIAID)

beirddion beirddon (BEIRDD)

brodorion (BRODER brodiau brodyr)

BRYTHON (un./ll.) brythion

canaon CANAWON cynawon

ceidrion ceidron (*CEIDR)

ceisiadon (CEISAID (-iaid yn rheolaidd))

ceithon (ond gw. y darlleniad llawysgrif) (CAITH)

celfyddodion (CELFYDDODAU)

coelion (COELAU coeliau)

cofion (COFAIN cofiain cofiau)

coffeion (coffau) ?

corfforion (corffau cyrff) **benthyciad**

⁴⁸⁷ Hemon, *Geriadur Brezhoneg*; Stüber, *Historical Morphology of N-Stems*, tt. 31-2.

⁴⁸⁸ Stüber, *Historical Morphology of N-Stems*, t. 36.

cyfeillion cyfeillon (*CYFAILL)

cyfoedion cyfoedon (*CYFOED cyfoedydd)

cyngreinon (CYNGRAIN) cynreinion cynreinon (CYNRAIN)

CYNYDDION cynyddon

deddfon (*DEDDF deddfau)

doethion doethon **benthyciad**

donion (DONIAU)

dragon (dreigau dreigiau dreigioedd) **benthyciad**

dyneddion dyniaddon dynion dynon (*DYN)

eirchion (*ARCH eirch)

mebion meibion meibon (MEIB meibionain meibonain)

MEILLION (tf.) meillon (meillionau)

meirwion (MEIRW)

merion (meiri meiriau) **benthyciad**

rhydon (RHYDAU rhydiau)

SGLYFON ysglyfion ysglyfion

swyson (swysau) **benthyciad**

teyrnon (*TEYRN teyrnain teyrnedd)

tirion (tiredd *TIROEDD)

treision (TREISIAU)

tyllon (TYLL tyllau)

wyrion wyron (*ŴYR)

ymchwelion (*YMCHWEL ymchwelau)

ysgyrion (*YSGWR (tf.) ysgyr)

-YD

Esbyd yw'r unig enghraifft o'r terfyniad hwn yn y sampl. Daw *-yd* o derfyniad lluosog y gair Lladin *hospites*.

esbyd (ysb) **benthyciad**

-YDD

Yn ôl Pedersen a Jackson, rhydd lluosog *bôn-i* gwrywaidd IE **-ejes* > Cym. *-oedd* yn rheolaidd, a daw *-ydd* o **-ijōm*, ffurf enidol luosog y *bonau-i* diryw.⁴⁸⁹ Anghytuna Schrijver gan ailystyried yr holl berthynas rhwng y terfyniadau hyn (gw. -OEDD). Dadleua fod tarddiad *-ydd* o'r ffurf enidol luosog yn annhebygol gan mai hon fyddai'r unig enghraifft lle yr oedd un *bôn* yn rhoi dau derfyniad lluosog yn y Frythoneg.⁴⁹⁰ Yr oedd gan Thurneysen eisoes amheuan tebyg.⁴⁹¹ Awgryma Schrijver y dylai'r *-ydd* darddu o'r cyflwr enwol (-gwrthrychol) gan mai hwn a roddodd y lluosogion Brythonaidd eraill i gyd. Dilyna Morris Jones a chynnig **-ejes* > **-ijes* > *-ydd*. Cefnogir hyn gan y datblygiad **-ej* > **-ij*, yn enwedig yn achos Cym. *efydd* < **omijo-* < **om-ejo-*; ac yn achos tarddiad y terfyniad Gwyddeleg *-i* < **-īs* < **-ijes* < **-ejes*.⁴⁹² Gweler y bennod ar *-oedd* am darddiad newydd i'r terfyniad hwn gan Schrijver.

Weithiau cymherir *-ydd* â'r Lladin lle y digwydd *-īs* fel ffurf gywasgedig o *-ejes*. Bu i'r terfyniad hwn oresi oherwydd bod y lluosog gwrthrychol yn *-īs* hefyd.⁴⁹³ Os cytunwn â Schrijver (gw. -OEDD), cymysgir rhwng *bonau-i* a *bonau* cytseiniol yn Gymraeg, megis yn Lladin, lle yr oedd y lluosog gwrthrychol *-ēs* yn cystadlu ag *-īs*.⁴⁹⁴

Nid oes yr un gair â'r terfyniad hwn yn wreiddiol ymysg y naw gair brodorol sydd yn y rhan hon.

bronnydd (*BRON bronnau)

bröydd (*BRO brooedd)

⁴⁸⁹ GOI, t. 193.

⁴⁹⁰ SBCHP, t. 393.

⁴⁹¹ GOI, t. 193.

⁴⁹² GOI, t. 193 (gw. -I hefyd); SBCHP, tt. 393-4.

⁴⁹³ Sihler, *Comparative Grammar*, t. 317.

⁴⁹⁴ Sihler, *Comparative Grammar*, t. 318.

ceyrydd (caerau caeroedd) **benthyciad ?**

coedydd (COED (tf.))

cyfoedydd (*CYFOED cyfoedion cyfoedon)

dolydd (*DÔL dolau)

maesydd meesydd ?

oesydd (*OES oesau)

trefydd (*TREF trefi)

ysgwydydd (*YSGWYD ysgwydau (y)sgwydawr)

-YR

Ceir yn *brodyr* derfyniad *bôn-r*, sef *-er*, wedi ei ddisodli drwy gydweddiad â phatrwm y *bonau-o* sy'n mynd drwy affeithiad-*i* yn y lluosog. Gw. BRAWD am drafodaeth fanwl.

brodyr (BRODER brodiau brodorion)

BENTHYCIADAU

Yn dilyn Lewis, gwahaniaethir yma rhwng benthyciadau i Gymraeg Cynnar, a benthyciadau diweddarach, sef rhai “dysgedig”.⁴⁹⁵ Mae *sygn* yn perthyn i'r ail ddsbarth, heb amheuaeth, a gwelir na ddilyn rediad y gair Lladin. Yn achos *pysg* a *creadur*, awgrymir iddynt gael eu benthycia ddwywaith, a'r ail fenthyciad yn un dysgedig.

Geiriau benthycg o'r Lladin yw'r geiriau yn y sampl ar wahân i *bwrdd*, ac efallai *sygn* a *twr*. Rhestrir y benthyciadau mewn dau gategori, sef geiriau sy'n mabwysiadu *bôn* y gair Lladin a geiriau na chymerant y *bôn* hwnnw.

Benthyciadau o'r Lladin yn unig sy'n cadw'r rhediad gwreiddiol weithiau yn y sampl hwn. Er enghraifft, lluosog *bôn-o* gwrywaidd yw'r Cym. *engyl*, fel y Llad. *angelī*. Gall *arf* fod yn dorfol megis Llad. *arma*. Yn achos *plu* (tf.), fe'i benthycwyd o'r ffurf unigol *plūma* yn ôl GPC. Dichon y daw o'r ll. *plūmae* a roddai *plu* hefyd. Sylwer, er hynny, ei bod yn sicr y

⁴⁹⁵ Lewis, *Elfen Ladin*, t. 31.

ceir *calaf* (tf.) o'r unigol *calamus* oherwydd rhoddai'r ll. *calamī* > Cym. **celyf*. Mae'n ddiddorol, felly, fod *calaf*, ac efallai *plu*, yn newid o ran ystyr i fod yn dorfol yn y Gymraeg.

Mae datblygiad *corff*, ll. hanesyddol **corffor* nad yw'n digwydd, yn awgrymu na fabwysiedid ffurf a ddangosai darddiad y gair Lladin pan nad oedd dosbarth cyfatebol yn yr iaith Gymraeg. Yn hytrach, yn yr achos hwn, ychwanegwyd y terfyniad mwy arferol *-ion* gan roi *corfforion* yn BBC (ond gw. CORFF).

Ceir 13 o eiriau â'u lluosogion yn dilyn rhediad y gair Lladin. Ceir rhwng un a thair ffurf luosog newydd ganddynt hefyd, sy'n debyg i beth sy'n digwydd yn achos y geiriau brodorol yr ymdrinnir â hwy yn y traethawd hwn. 12 o eiriau sydd yn y dosbarth o rai nad yw eu lluosogion yn cydweddu â'r Lladin. Os ychwanegir y ffurfiau cydweddol o'r dosbarth cyntaf, a ffurfiau'r ail ddosbarth i gyd, ceir 49 o luosogion cydweddol a 13 o luosogion sy'n aros yn ffyddlon i'r Lladin. Er hynny, mae'n bwysig cofio nad oes sicrwydd ynghylch tarddiad rhai o'r geiriau. Gwelir, er hynny, fod cydweddiad ar waith yn achos geiriau benthyc i'r Gymraeg fel yn achos y geiriau brodorol.

Cymharer, er enghraifft, ddosbarthiad y ffurfiau yn *-(i)on* (chwe lluosog gwreiddiol allan o 41) ac affeithiad-*i* (13 lluosog gwreiddiol allan o 37). O ganlyniad, cesglir bod geiriau benthyc yn datblygu'n forffolegol fel y gwna'r geiriau brodorol o'r Indo-Ewropeg. Gwyddom eisoes fod seiniau'r benthyciadau cynnar o'r Lladin yn datblygu i'r Gymraeg yn yr un modd â seiniau'r Indo-Ewropeg.⁴⁹⁶ Mae golwg ar rediad y benthyciadau hyn yn cryfhau, yng ngeiriau Lewis, 'pa mor llwyr y llyncwyd y benthyciadau cynnar Lladin gan yr iaith frodorol.'⁴⁹⁷

Enwau a redir yn ôl bôn y gair Lladin

ARF (tf.) arfau eirf

CALAF (tf.) calafennau

DRAGON dreigau dreigiau dreigioedd

ENGYL angylion engylion

ESBYD ysb

PEBYL pobledd pobloedd

⁴⁹⁶ Lewis, Henry, *Datblygiad yr Iaith Gymraeg*, Caerdydd, 1983, t. 72.

⁴⁹⁷ Lewis, *Datblygiad*, t. 77.

PLU (tf.) pluawr

PYSG PYSGOD

SAINT ?sant seinau seiniau

SEIRCH (un./ll.) seirchiawr

SWYSAU swyson

?TYRFAIN tyrf

YSBRYDIAU ysbrydoedd

Lluosogion drwy gydweddiad

byrdd byrddau byrddoedd **o H. S.**

caerau caeroedd ceirydd (?)

cethrau cethrawr cethri

corffau corfforion cyrff

cornau cyrn (?)

creadurau creaduriau

doethion doethon

meiri meiriau merion

pebyll pebyllau

preiddau preiddiau preiddiawr preiddioedd

sygnau sygnoedd **benthyciad dysgedig efallai drwy H. S. neu drwy H. Ffr.**

tyrau tyrioedd **benthyciad efallai o H. Ffr.**

ENWAU TORFOL

Ymdriniwyd yn fanwl â system enwau unigolynnol a thorfol y Llydaweg gan Trépos a chan Acquaviva. Gofynnir yma, felly, a yw'r system Gymraeg yn debyg. Mae'n ymddangos nad oes cymaint o eirioldeb (S. lexicality) yn achos y torfolion a'r unigolion Cymraeg.

Yr oedd enwau torfol Celtaidd yn wahanol i enwau lluosog am nad oedd cytundeb rhyngddynt â'r ferf. Mewn Celteg, cyfeirid at enw torfol gan ferf unigol fel arfer, ond nid yw'r gwahaniaeth hwn yn parhau'n gyson yn yr ieithoedd Celtaidd. Defnyddid ansoddair unigol gydag enwau torfol bob tro mewn Hen Wyddeleg, o'i gymharu â defnydd ansoddeiriau lluosog gydag enwau lluosog. Ni chytuna'r ansoddair â rhif yr enw yn gyson yn y Frythoneg, oherwydd colli'r cyflyrau.⁴⁹⁸ Yn yr ieithoedd Brythonig Modern, mae ar enw torfol angen berf luosog, yn union fel y bydd enw lluosog yn gofyn am ferf luosog. Gwelir hyn yn enghraifft Lydaweg Trépos *n'eo ket mad ar bili-ze, re vihan int* lle y ceir *int*, 3ydd ll. y ferf *bet* 'bod', yn lle *eo*, 3ydd un., yn cyfeirio at *bili* 'cerrig mân'. Cymharer 'nid yw'r cerrig hynny'n iawn, maent yn rhy fach'.⁴⁹⁹

Gwneir enwau torfol yn unigolynnol drwy ychwanegu'r ôl-ddodiaid *-yn* (g.) ac *-en* (b.). Cyfetyb yr ôl-ddodiaid hyn i'r Llyd. *-enn* (b.). Yn Llydaweg mae *-enn* yn cael ei ychwanegu at fonau monomorffemig a gwneir hyn yn Gymraeg, e.e. *coed* / *coeden*, ond mewn rhai enghreifftiau ychwanegir y terfyniad unigolynnol at ffurf luosog. Ystyrier Llyd. *pesk-ed-enn* a *ster-ed-enn*, a'r Cym. *pysg-od-yn* a *llyg-od-en*. Yn achos y geiriau hyn, disodlwyd yr hen unigolion *pesk*, *ster*, *pysg* a *llyg* gan y ffurfiau hir newydd.⁵⁰⁰

Ar y llaw arall, mae'n bosibl lluosogi ffurfiau unigolynnol Llydaweg fel yn achos *kiez-enn-ed* 'geist' sy'n cynnwys y ffurf fenywaidd o *ki* 'ci', y terfyniad unigolynnol *-enn*, a'r terfyniad lluosog *-ed*.⁵⁰¹ Ni wn am enghreifftiau tebyg yn y Gymraeg.

Mae'r system Lydaweg yn wahanol eto yn achos y gwrthgyferbyniad torfol ~ unigolynnol. Gall y ffurf unigolynnol yn *-enn* ddynodi rhan o dorf, megis *glav-enn* 'diferyn glaw', ond hefyd unedau sy'n cynnwys llawer o unedau llai, megis *gwiz-enn* 'maes gwenith'.⁵⁰² Cymharer y Cym. *gwellt* (tf. / ll.), *gwellt-yn* / *gwellt-en* (unigolynnol), *gwellt-en-ni* (ll.).⁵⁰³

Mae'n ddiddorol nodi bod gan bob ffurf dorfol isod o leiaf un ffurf luosog wedi ei

⁴⁹⁸ CCCG, t. 160.

⁴⁹⁹ Trépos, Pierre *Grammaire bretonne*, trydydd argraffiad, Brest, 1994, t. 85.

⁵⁰⁰ Acquaviva, *Lexical Plurals*, t. 258.

⁵⁰¹ Trépos, *Le pluriel breton*, t. 241.

⁵⁰² Acquaviva, *Lexical Plurals*, t. 245.

⁵⁰³ GPC.

ffurfio drwy derfyniad neu drwy affeithiad, ac weithiau drwy ychwanegu terfyniad lluosog at y ffurf unigolynnol.

Ymdrinnir â'r benthyciadau torfol yn y bennod ar fenthyciadau.

?*AES (un./ll.) (aesawr)

arf (tf.) (arfau eirf) **benthyciad**

calaf (tf.) (calafennau) **benthyciad**

COED (tf.) (coedydd)

DRYS (tf.) (drysi)

MEILLION (tf.) (meillionau meillon)

ONN (tf.) (ynn)

plu (tf.) (pluawr) **benthyciad**

*RHIALLU (tf.) (rhialluawr rhialluoedd cymh. LLU (tf.) lluoedd)

SÊR (tf.) (sŷr)

TYWARCH (tf.) (tywarchennau tyweirch)

*YSGWR (tf.) (ysgyr ysgyrion)

GEIRIAU UNFFURF YN Y LLUOSOG A'R UNIGOL

Yn yr Wyddeleg, unffurf yw lluosog ac unigol rhai o'r bonau. Yn y bonau-*o* gwrywaidd, yr un yw'r unigol genidol a'r lluosog enwol; ac yr un yw'r genidol lluosog a'r unigol enwol. Digwydd hyn mewn ieithoedd eraill hefyd: yn y pumed rhediad Swedeg, ceir un. *barn* 'plentyn', *barnet* 'y plentyn' a ll. *barn* 'plant', *barnen* 'y plant'. Yr un yw'r ffurfiau amhendant unigol a lluosog, felly.

Hyd y gwn, ni oroesodd y lluosog unffurf â'r unigol yn y testunau Cymraeg sydd gennym. Er mwyn gwirio hyn, byddai'n rhaid craffu ar yr enghreifftiau o'r ffurfiau diderfyniad (a ystyrir yn unigol) er mwyn darganfod a yw rhai ohonynt yn ymddwyn fel lluosog gan gytuno â ffurfiau berfol lluosog. Awgrymir yn ofalus, er hynny, y câi'r ffurfiau

lluosog a restrir yma gan ‘*’ eu disodli gan ffurfiau lluosog newydd. Ymddengys mai datblygiad cynnar oedd hwn. Cyn y newid hwn, yr oedd y siaradwyr yn dibynnu ar y cyd-destun er mwyn penderfynu ai’r ffurf unigol ynteu’r un lluosog a ddefnyddid. Ar ôl y newid, mae’n haws deall ffurf â therfyniad lluosog neu affeithiad-*i* yn lluosog, ac nid yw’n rhaid dibynnu ar y cyd-destun. Rhestrir isod y bonau sydd â’u lluosogion un unffurf â’r unigol a gafwyd yn y sampl.

Bonau-*ā*

Mae’r enwau *bôn-ā* yn fenywaidd. Maent yn gysylltiedig â’r *bôn-o*. Gellir cymharu lluosog enwol / gwrthrychol *bonau-o* diryw yn *-ā*, â’r unigol enwol *bonau-ā* (gw. **bonau-o diryw**). Daw unigol enwol y *bonau-ā* o’r IE **-eH₂-* > *-ā*. Y lluosog enwol oedd **-eH₂-es* sy’n rhoi *-ās* yn y rhan fwyaf o’r ieithoedd Indo-Ewropeaidd.⁵⁰⁴ Ni all *-ās* roi lluosog gwahanol i’r unigol yn y Gymraeg.

*BRO (brooedd bröydd)

*BRON (bronnau bronnydd)

*BYDDIN (byddinau byddinawr byddinoedd)

*CARREG (caregau carreg cerrig)

*CERDD (cerddau cyrdd)

*DEDDF (deddfau deddfon)

*DÔL (dolau dolydd)

*OLWYN (olwynau olwynawr)

*PÂR (parau peri)

*RHAN (rhannau rhanned)

*TREF (trefi trefydd)

*YMCHWEL (ymchwelau ymchwelion)

Bonau-*jo*

⁵⁰⁴ Sihler, *Comparative Grammar*, t. 271; VKG II, tt. 86-7.

Rhedir y bôn hwn megis y bonau-*o* ond ychwanegir *-j-* at y bôn ac felly ceir unigol enwol yn *-jos-*, a lluosog yn *-jī*. Mae'r ddau'n peri affeithiad, e.e. Brth. **donjos > dyn*, ll. **donjī > *dyn* ac nid yw'r unigol a'r lluosog enwol yn wahanol, felly.⁵⁰⁵ Sylwer mai *-(i)on* yw'r terfyniad newydd i'r enwau hyn yn achos pob enghraifft isod ar wahân i *blaidd*.

*ARWYDD (arwyddion arwyddon)

*BLAIDD (bleiddau bleiddiau bleiddiawr)

*CYFAILL (cyfeillion cyfeillon)

*DYN (dyneddon dyniaddon dynion dynon)

*ŴYR (wyrion wyron)

Hen ddiryw?

*AES (un./ll.) (aesawr)

Bonau-*o* diryw

Terfyniad lluosog y bonau hyn yw **-ā* nad yw'n peri affeithiad, yn wahanol i'r terfyniad lluosog gwrywaidd bôn-*o*, a disgwylir yr un ffurf yn yr unigol a'r lluosog yn y Gymraeg. Mewn Hen Wyddeleg, ceir ffurf luosog amrywiol yn *-a* yn ogystal â'r lluosog unffurf disgwylidig.⁵⁰⁶

Mae'r bôn hwn yn gysylltiedig â tharddiad bonau-*ā* yn yr ieithoedd Indo-Ewropeaidd i gyd (heblaw mewn Hetheg lle na cheir dosbarth penodol o enwau benywaidd). Nodir yr *-ā* yn lluosog enwol / gwrthrychol y bonau-*o* diryw, a'r *-ā* yn unigol enwol y bonau-*ā*. Dywed Sihler: 'A historical connection between *o*-stem neuter plurals and the feminine *eH*₂-stems was made easier when it was discovered that in Hitt., as in G, the "plural" of the neuter was in a very real sense singular, as it construes with 3sg. verbs.' Ceir felly 're-interpretation of a neut.pl. as some kind of derivative (collective) singular.'⁵⁰⁷

Dengys pedair (*elyf*, *eirch*, *nyrth*, *unbyn*) o'r ffurfiau yn y sampl luosog newydd, yn ôl patrwm y bonau-*o* gwrywaidd (os cyfrifir *unbyn*).

*ALAF (alafodd elyf)

⁵⁰⁵ SBCHP, t. 259.

⁵⁰⁶ VKG II, t. 84.

⁵⁰⁷ Sihler, *Comparative Grammar*, t. 266.

- *ARCH (eirch eirchion)
- *BAN (bannau bannedd)
- *CARN (carnau carnedd (gw. nodiadau) carneddawr)
- *CRAIR (creirau creiriau)
- *CYFOED (cyfoedion cyfoedon cyfoedydd)
- *NERTH (nerthoedd nyrrh)
- *OES (oesau oesydd)
- *PEN (pennau pennawr pennain cymh. unbyn)
- *YSGWYD (ysgwydau (y)sgwydawr ysgwydydd)

Bonau-*o* gwrywaidd

Dyma dair enghraifft o enwau na allent gael eu haffeithio gan *-ī* derfynol yn y lluosog (gan nad yw *-i-* nac *-y-* yn cael eu haffeithio, wrth gwrs). Mae'n debyg i'r ffurfiau hyn gael eu disodli'n gynnar er mwyn gwahaniaethu rhwng y lluosog a'r unigol.

- *BRENIN (brenhinedd brenhinoedd)
- *CLEDDYF (cleddyfau cleddyfawr)
- *TEYRN (teyrnain teyrnedd teyrnon)

Bon-*k*

Eithaf prin yw enwau *bôn-g* a *-k* yn y Gymraeg. Terfyniad yr unigol Indo-Ewropeaidd oedd **-s*, ll. **-es*.⁵⁰⁸

- *AMDRWCH (amdrychioedd amdrychion cymh. trychion trychon)

Bon-*nt*

Terfyniad unigol yr enwau diryw *bôn-nt* Indo-Ewropeaidd oedd **-nt*, ll. **-nta*, sy'n rhoi e.e. Cym. *dant*, ll. **dant* a H. Wydd. *dét*, ll. *dét* (yn ddiweddarach *déta*, *déoit* drwy

⁵⁰⁸ VKG II, tt. 97-8.

gydweddiad).⁵⁰⁹ Mae'r lluosogion Gwyddeleg newydd yn cryfhau'r awgrym y disodlid ffurfiau lluosog unffurf gan yr unigol yn Gymraeg hefyd.

*DANT (dannedd deint)

Bon-u / -ū

DEIGR (un./ll.) (dagrau) (gw. DEIGRYN)

GEIRIAU SYDD YN UNIGOL AC YN LLUOSOG

Â'r rhain gellir cymharu'r lluosogion di-derfyniad ('zero plurals') Saesneg megis *deer* a *sheep*.⁵¹⁰ Noda Acquaviva y ceir yn yr ieithoedd Indo-Ewropeaidd enwau â'u hunigol a'u lluosog yn cyfeirio at 'one unit of reference', megis Llad. *castrum* (un.) ~ *castra* (ll.) 'fortified camp'. Mae'r defnydd hwn yn eiriol (S. lexical) gan na cheir y gwahaniaeth arferol rhwng categorïau ffurfdroadol. Hynny yw, deellir unigol yr ieithoedd Brythonig (megis rhai'r Saesneg) fel ffurf heb derfyniad a heb affeithiad-*i* yn ei bôn, ac mae'r lluosog yn ffurf sy'n dangos un neu ddwy o'r nodweddion hyn.⁵¹¹ Mae'r Lladin yn wahanol: mae gan yr unigol derfyniad hefyd. Awgrymir, yn betrus, gysylltiad rhwng y categorïau Saesneg a Lladin a ddisgrifir uchod a'r enwau sydd â'u hunigol a'u lluosog yn un mewn Cymraeg Canol. Noder na cheir y defnydd hwn mewn Cymraeg Modern safonol, hyd a gwn.

Mae'n ymddangos bod gan y geiriau benthycg yn y categori hwn yr un tarddiad â'r geiriau Lladin: daw *pysg* o'r un. *piscis* neu o'r ll. *piscēs* a rhydd y naill a'r llall *pysg*. Terddir *seirch* o **sarcia* sy'n ymddangos fel bôn-*jā* lle nad oes gwahaniaeth rhwng yr unigol a'r lluosog.

?*AES (un./ll.) (aesawr)

BRYTHON (un./ll.) (brythion)

DEIGR (un./ll.) (dagrau)

esgar (un./ll.) (ESGARANT esgereint cymh. CARANT cereint)

pysg (un./ll.) pysgod **benthyciad**

seirch (un./ll.) (seirchiawr) **benthyciad**

⁵⁰⁹ VKG II, t. 104.

⁵¹⁰ Acquaviva, *Lexical Plurals*, t. 30.

⁵¹¹ Acquaviva, *Lexical Plurals*, t. 46.

PLURALIA TANTUM (gw. y tabl yn Atodiad II)

Mae'r *pluralia tantum* yn ddiddorol o safbwynt geirioldeb (S. lexicality). Anwybyddir yma eiriau torfol heb ffurf unigolynnol a ardystiwyd, megis *argoed* a *briwgawn* sy'n cynnwys torfolion cyffredin *coed* (unigolynnol *coeden*) a *cawn* (*cawnen*, *conyn*).⁵¹²

Dosbarth amlwg o *pluralia tantum* yw enwau priod megis yr enwau pobloedd yn -wys: *Argoedwys*, *Gwennwys* a *Lloegrwys*. Tarddant o'r Llad. *-ensēs*.⁵¹³ Ni wn am ffurfiau unigol y geiriau hyn er y gellid disgwyl ffurfiau unigolynnol yn -wysyn. Yn ôl Jackson mae -wys yn ôl-ddodiad torfol; gellir cymharu *Lindes*, *Lindesse* mewn Eingl-Sacsoneg â *Linnuis* (yn *Historia Brittonum*) mewn Hen Gymraeg.⁵¹⁴ Terfyniad cytras yn y Llydaweg yw *-is* / *-iz*, e.e. *Brestis* 'pobl Brest', *Breiziz* 'pobl Llydaw'.⁵¹⁵

Ffurfir lluosog enw pobl arall drwy ychwanegu *-iaid* yn achos *Brochfael-iaid*. Llunnir enw lluosog o enw personol drwy arfer *-ion* yn *Merfyn-ion* 'disgynyddion Merfyn Frych'. Ychwanegir *-ion* eto at ferf yn achos *seifogion* 'those who withstand' < *safaf*: *sefyll*.

Mae ystyr nifer o'r enwau hyn yn drosiadol. Cymharer *allmyr* < *all-* 'arall, estron' + *mÿr* (un. *môr*). Ceir gair cytras yn H. Wydd. *allmuir* sy'n unigol â'r ystyr 'estronwr' a lluosog â'r ystyr S. 'imported goods' a hefyd 'foreign parts'. Cryfheir y syniad mai ystyr drosiadol sydd yma gan fod *allmyr*, ac efallai Gwydd. *allmuir* mewn un enghraifft, yn cael ei ddefnyddio fel ansoddair.⁵¹⁶ Ymddengys fod gennym system Geltaidd gynhyrchiol lle y creïd geiriau cyfansawdd a allai gael eu defnyddio fel enwau ac fel ansoddeiriau mewn ystyron trosiadol. Mae gwybod bod o leiaf pum *hapax legomena* yn y tabl sy'n enwau cyfansawdd yn ategu hyn ac yn awgrymu eu bod wedi cael eu creu *ad hoc* gan y beirdd.

Cymharer *carnweilwyon* a *dialuoryon* lle y ceir enw + ansoddair lluosog. Cyfuniadau barddonol ydynt yn lle ysgrifennu *carnau gwelw* a *dialau mawr*. Mae'r ddau air hyn yn *hapax legomena* (os na chyfrifir *dialfawr* yng ngeiriadur W. Owen-Pughe), ac enghreifftiau o benrhyddid bardd.⁵¹⁷

⁵¹² GPC.

⁵¹³ LHEB, t. 543.

⁵¹⁴ LHEB, t. 332.

⁵¹⁵ Hemon, *A Historical Morphology and Syntax of Breton*, tt. 32-3; Trépos, *Le pluriel breton*, t. 56.

⁵¹⁶ eDil, gwelwyd 04/09/2009; GPC².

⁵¹⁷ GPC.

Diwedd glo

Rhan 1 yw'r rhan ehangaf o'r astudiaeth hon, a'r un bwysicaf yn fy marn. Gwelir yno sut y ceir sawl lluosog ar gyfer yr un enw neu ansoddair. Er hynny, dwy ffurf lluosog yn unig sydd gan y rhan fwyaf o'r geiriau, a thair gan y gweddill, ar wahân i *brawd*, sydd â phedair ffurf lluosog (*broder*, *brodyr*, *brodorion*, *brodiau*). Gellid ystyried amrywiadau rhwng terfyniadau gyda'r iod a'r rhai hebddi fel amrywiadau pellach (-*au* / -*iau* a.y.b.). Sylwer, hefyd, pa mor aml y mae'r lluosog hanesyddol yn unffurf â'r unigol. Rhestrir pob amrywiad orgraffyddol sydd yn Atodiad I, ac felly ceir yn aml fwy na dwy neu dair ffurf lluosog yn y tabl. Yn Rhan 1 cesglir ynghyd wybodaeth fanwl am eirdarddiad enwau ac ansoddeiriau penodol. Gellir cynnig geirdarddiad eithaf sicr ar gyfer nifer ohonynt, ond mae rhai'n amheus (e.e. *caer*, *corn* a *dafn*). Trafodir geirdarddiadau tebygol yn achos y geiriau hyn. Yn achos y gwahanol ffurfiau lluosog sydd gan y geiriau yn y sampl, gellir, yn betrus, awgrymu rhai patrymau. Ceir yn aml ar gyfer yr un gair un ffurf ag affeithiad-*i* ac un â therfyniad lluosog (a hefyd ag affeithiad-*i* weithiau), e.e. *eis* / *asau*; *eirf* / *arfau*; *meirw* / *meirw(i)on*. Mae gan rai geiriau hen ffurfiad lluosog na phrofodd yn gynhyrchiol yn yr iaith, megis *brod-er*, *cemm-ein*, *rhwym-ein* a.y.b. Ym mhob achos ceir bod ffurfiau lluosog newydd (*brodyr*, *brodorion*; *camau*; *rhwymau*) gan y geiriau hyn. Ceir yr hen derfyniad -*awr*, a ddisodlwyd yn gynnar, ochr yn ochr â therfyniadau mwy cynhyrchiol, hefyd.

Yn Rhan 2, dosberthir geiriau Rhan 1 yn ôl pob ffurfiad lluosog. Trafodir hanes pob ffurfiad a bwrir golwg ystadegol ar faint o eiriau sy'n ffurfio eu lluosogion drwy bob ffurfiad, a faint ohonynt sy'n hanesyddol gywir. Gwelir, yn gyffredinol, fod terfyniadau megis -*au*, -*oedd* ac -*ion* yn ymledu yn yr iaith (e.e. *mor-oedd* yn unig a gymer -*oedd* yn ôl bôn hanesyddol yr enw, ond ceir 19 o enwau ag -*oedd* drwy gydweddiad). Cymherir terfyniadau prin megis -*ain* (-*ein* yn yr hen orgraff), -*ant* ac -*er* nad ydynt yn ymledu i raddau helaeth i enwau eraill (ceir -*ain* drwy gydweddiad mewn pedwar enw, ond ni cheir -*er* ac -*ant* ond yn *brod-er* ac yn *car-ant* / *esgar-ant*).

Yn achos geiriau benthyc, gwelir eu bod yn dilyn yr un patrymau â'r geiriau brodorol. Hynny yw, gallant ddilyn tarddiad y gair Lladin, e.e. *engyl* < ll. Llad. *angelī*, ond ceir hefyd ffurfiau cydweddol, megis *angylion*, *engylion* a.y.b.

Hyderaf y bydd yr Atodiad yn ddefnyddiol i ymchwilyr ym maes iaith a llenyddiaeth Cymraeg Cynnar. Gellid defnyddio'r Atodiad wrth astudio llawysgrifau a beirdd penodol, yn ogystal ag wrth ddadansoddi datblygiad yr iaith yn gyffredinol.

Mae defnydd yn yr Atodiad ac yn Rhan 1 sydd heb ei astudio yn y traethawd hwn, a

byddai'n ddiddorol ymdrin ymhellach ag ef. Er bod y bennod ar y *pluralia tantum* yn cynnwys sylwadau rhagarweiniol, bydd angen astudio'r geiriau hyn a'u cyd-destun yn fanwl. Rhestrir yn yr Atodiad enwau lluosog sy'n dilyn rhifolion, ond nis trafodir yn y traethawd hwn. Gobeithiaf, felly, y bydd y traethawd MPhil hwn yn arwain at astudiaethau pellach ar system enwau ac ansoddeiriau Cymraeg a Chelteg.

Byrfoddau

Ang	Angers MS 477, gw. Falileyev, <i>Etymological Glossary of Old Welsh</i>
Alm.	Almaeneg
ans.	ansoddair
b.	benywaidd
BBC	Jarman, A. O. H., <i>Llyfr Du Caerfyrddin</i> , Caerdydd, 1982.
BBCS	<i>Bulletin of the Board of Celtic Studies</i> (1921-93)
Brth.	Brythoneg, -onig
C.	Canol (yn natblygiad iaith)
CA	Williams, Ifor, <i>Canu Aneirin</i> , Caerdydd, 1961.
GA	Gwarchan Adebón
GT	Gwarchan Tudfwlch
GK	Gwarchan Kynfelyn
GM	Gwarchan Maeldderw
CBT	Gruffydd, R. Geraint (gol. cyffredinol), <i>Cyfes Beirdd y Tywysogion</i> , 7 cyfrol, Caerdydd, 1991-6.
CCCG	Lewis, Henry & Pedersen, Holger, <i>A Concise Comparative Celtic Grammar</i> , Göttingen, 1974.
CMCS	<i>Cambridge Medieval Celtic Studies</i> (1981-1993) <i>Cambrian Medieval Celtic Studies</i> (1993-)
Chad 2	Llyfr St. Chad, gw. Falileyev, <i>Etymological Glossary of Old Welsh</i>
Clt.	Celteg
Crn.	Cernyweg
Cym.	Cymraeg
darll.	darllener
derb.	[cyflwr] derbyniol
DIL	Quin, E. G. (gol. cyffredinol), <i>Dictionary of the Irish Language: based mainly on Old and Middle Irish materials</i> , Dublin, 1983.
dir.	diryw
Diw.	Diweddar (yn natblygiad iaith)

DOB	Evans, Claude & Fleuriot, Léon, <i>A Dictionary of Old Breton / Dictionnaire du vieux breton</i> , Toronto, 1985.
e.	enw
ÉC	<i>Études Celtiques</i> (1936-)
EWSP	Rowland, Jenny, <i>Early Welsh Saga Poetry: a Study and Edition of the Englynion</i> , Cambridge, 1990.
Ffr.	Frangeg
G	Lloyd-Jones, J., <i>Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg</i> , 2 gyfrol (a-b), Caerdydd, 1931-1946.
g.	gwrywaidd
Gal.	Galeg
gen.	[cyflwr] genidol
GIB	Hemon, Roparz, <i>Geriadur Istorel ar Brezhoneg</i> , 36 rhan, Paris & Rennes, 1958-79.
gl.	glòs ar
GMW	Evans, D. Simon, <i>A Grammar of Middle Welsh</i> , Dublin, 2006.
Goed.	Goeddeleg, -ig
GOI	Thurneysen, Rudolf, <i>A Grammar of Old Irish</i> , Dublin, 1946.
GPC	Thomas, R.J. <i>et al.</i> (goln), <i>Geiriadur Prifysgol Cymru</i> , 4 cyfrol, Caerdydd, 1950-.
GPC ²	Bevan, Gareth A. & Donovan, Patrick J. <i>et al.</i> (goln), <i>Geiriadur Prifysgol Cymru</i> , ail argraffiad, 8 rhan, Caerdydd, 2003-.
Gr.	Groeg
gw.	gweler
gwrth.	[cyflwr] gwrthrychol
Gwydd.	Gwyddeleg
H.	Hen (yn natblygiad iaith)
IE	Indo-Ewropeg, Indo-Ewropeaidd
IEW	Pokorny, Julius, <i>Indogermanisches etymologisches Wörterbuch</i> , cyfrol 1, Bern & München, 1949-1959.
J	‘glosau Juvenicus’ yn Cambridge MS Ff 4, 42, gw. A. Falileyev, <i>Etymological Glossary of Old Welsh</i>

Juv 9	naw englyn yn Cambridge MS Ff 4, 42, gw. A. Falileyev, <i>Etymological Glossary of Old Welsh</i>
LEIA	Vendryes, J. et. al., <i>Lexique étymologique de l'irlandais ancien</i> , 7 cyfrol, Dublin & Paris, 1959-.
LHEB	Jackson, Kenneth Hurlstone, <i>Language and History in Early Britain : a Chronological Survey of the Brittonic Languages, 1st to 12th c. A.D</i> , Edinburgh, 1953.
LPBT	Haycock, Marged (gol. a chyfieithu), <i>Legendary Poems from the Book of Taliesin</i> , Aberystwyth, 2007.
LL	Evans, J. Gwenogvryn & Rhÿs, John (goln), <i>The Text of the Book of Llan Dav</i> , Oxford, 1893.
ll.	lluosog
Llad.	Lladin
Llyd.	Llydaweg
M.	Modern (yn natblygiad iaith)
MC	Martianus Capella, <i>De Nuptiis Philologiae et Mercurii</i> , Corpus Christi College, Cambridge MS 153, gw. Falileyev, <i>Etymological Glossary of Old Welsh</i>
MP	<i>De Mensuris et Ponderibus (Liber Commonei, Oxoniensis Prior)</i> , Bodleian MS. Auct. F. 4. 32, gw. Falileyev, <i>Etymological Glossary of Old Welsh</i>
Ovid	<i>Ars Amatoria</i> (Oxoniensis Prior, Bodleian MS. Auct. F. 4. 32, fol. 37 ^a – 42 ^a), gw. Falileyev, <i>Etymological Glossary of Old Welsh</i>
Ox2	“Oxoniensis Posterior” (Bodleian MS 572), gw. Falileyev, <i>Etymological Glossary of Old Welsh</i>
Pad	Corpus Christi MS 199 fo. 11a, gw. Falileyev, <i>Etymological Glossary of Old Welsh</i>
Prisc	Gramadeg Priscian (BN lat. 10290), gw. Falileyev, <i>Etymological Glossary of Old Welsh</i>
RC	<i>Revue Celtique</i> (1870-1934)
S.	Saesneg
SBCHP	Schrijver, Peter, <i>Studies in British Celtic Historical Phonology</i> , Amsterdam-Atlanta, 1995.
Skr.	Sansgrit
tf.	torfol
un.	unigol

Van.	tafodiaith Lydaweg Vannes (Gwened)
VKG	Pedersen, Holger, <i>Vergleichende Grammatik der keltischen Sprachen</i> , 2 gyfrol, Göttingen, 1909-1913.
Voc.Corn.	<i>Vocabularium Cornicum</i>
WG	Morris Jones, J., <i>A Welsh Grammar</i> , Oxford, 1913.
ZCP	<i>Zeitschrift für Celtische Philologie</i> (1897-)

Llyfryddiaeth

Acquaviva, Paolo, *Lexical Plurals: A Morphosemantic Approach*, Oxford, 2008.

Bevan, Gareth A. & Donovan, Patrick J. *et al.* (goln), *Geiriadur Prifysgol Cymru*, ail argraffiad, 8 rhan, Caerdydd, 2003-.

Blom, Alderik H., 'The Welsh Glosses in the *Vocabularium Cornicum*', CMCS 57 (Haf 2009), 23-40.

Bromwich, Rachel (gol.), *Trioedd Ynys Prydein: the triads of the island of Britain*, trydydd argraffiad, Cardiff, 2006.

Brugmann, Karl, 'Irish *Duine* "Mensch"', ZCP 3 (1901), 595-8.

Coe, Jonathan Baron, *The Place-Names of the Book of Llandaf*, traethawd PhD, Aberystwyth, 2001.

Davies, Elwyn (gol.), *Rhestr o Enwau Lleoedd: A Gazetteer of Welsh Place-Names*, Caerdydd, 1967.

Delamarre, Xavier, *Dictionnaire de la langue gauloise*, Paris, 2001.

Ernault, E., 'Les pluriels bretons en *er*', ZCP 1 (1897), 232-244.

Evans, Claude & Fleuriot, Léon, *A Dictionary of Old Breton / Dictionnaire du vieux breton*, Toronto, 1985.

Evans, D. Simon, *A Grammar of Middle Welsh*, Dublin, 2006.

Evans, D. Simon, 'Iaith y Llys a Beirdd y Tywysogion' yn Owen, Morfydd E. & Roberts, Brynley F. (goln), *Beirdd a Thywysogion cyflwynedig i R. Geraint Gruffydd*, Cardiff, 1996, tt. 60-74.

Evans, J. Gwenogvryn (gol.), *Facsimile and Text of the Book of Taliesin*, Llanbedrog, 1910.

Evans, J. Gwenogvryn & Rhÿs, John (goln), *The Text of the Book of Llan Dav*, Oxford, 1893.

Falileyev, Alexander, *Etymological Glossary of Old Welsh*, Tübingen, 2000.

Favereau, Francis, *Dictionnaire du breton contemporain / Geriadur ar brezhoneg a-vremañ*, Morlaix, 1992.

- Fleuriot, Léon, *Le vieux breton: éléments d'une grammaire*, Paris, 1964.
- Gruffydd, R. Geraint (gol. cyffredinol), *Cyfres Beirdd y Tywysogion*, 7 cyfrol, Caerdydd, 1991-6.
- Hamp, Eric P., '*Dieu- "day" in Celtic', *ÉC* 14 (1974-75), 472-7.
- Hamp, Eric P., 'On some sources of Primitive Breton *L*', *ÉC* 14 (1974), 195-9.
- Hamp, Eric P., 'The Keltic words for "tear"', *Ériu* 22 (1971), 181-4.
- Haycock, Marged, *Blodeugerdd Barddas o Ganu Crefyddol Cynnar*, Cyhoeddiadau Barddas, 1994.
- Haycock, Marged (gol. a chyfieithu), *Legendary Poems from the Book of Taliesin*, Aberystwyth, 2007.
- Hemon, Roparz, *A Historical Morphology and Syntax of Breton*, Dublin, 1975.
- Hemon, Roparz (gol.), *Geriadur Brezhoneg gant skouerioù ha skeudennoù*, Ar Releg-Kerhuon, 1995.
- Hemon, Roparz, *Geriadur Istorel ar Brezhoneg*, 36 rhan, Paris & Rennes, 1958-79.
- Henry, V., *Lexique étymologique des termes les plus usuels du breton moderne*, Rennes, 1900.
- Huws, Daniel, *Medieval Welsh Manuscripts*, Cardiff, 2000.
- Jackson, Kenneth Hurlstone, *A Historical Phonology of Breton*, Dublin, 1967.
- Jackson, Kenneth Hurlstone, *Language and History in Early Britain: a Chronological Survey of the Brittonic Languages, 1st to 12th c. A.D.*, Edinburgh, 1953.
- Jackson, Kenneth Hurlstone, *The Gododdin: The Oldest Scottish Poem*, Edinburgh, 1969.
- Jarman, A. O. H., *Llyfr Du Caerfyrddin*, Caerdydd, 1982.
- Jarman, A. O. H. (gol. a chyfieithu), *Y Gododdin: Britain's Oldest Heroic Poem*, Llandysul, 1988.
- Jenner, Henry, *A handbook of the Cornish language: chiefly in its latest stages with some account of its history and literature*, London, 1904.
- Jones, Thomas, 'corff, corffor', *BBCS* 11 (1944), 138.
- Joseph, Lionel S., 'The Treatment of *CRH- and the Origin of CaRa- in Celtic', *Ériu* 33 (1982), 31-57.
- Koch, John T., 'Gleanings from the *Gododdin* and other Early Welsh texts', *BBCS* 38 (1991), 111-18.
- Koch, John T., *The Gododdin of Aneirin: Text and Context from Dark Age North Britain*, Cardiff, 1997.

- Lambert, Pierre-Yves, 'Les commentaires celtiques à Bède le Vénérable', *ÉC* 20 (1983), 119-43.
- Lambert, Pierre-Yves, 'The place names of *Lugdunensis* [Λουγδουνησία] (Ptolemy II 8)', yn de Hoz, Javier, Luján, Eugenio R. & Sims-Williams, Patrick (goln), *New Approaches to Celtic Place-Names in Ptolemy's Geography*, Madrid, 2005, 215-51.
- Lemmen, Karianne, *The Old Welsh glosses in Martianus Capella revised and rearranged with newly found glosses*, traethawd MA, Utrecht, 2006.
- Lewis, Henry, *Datblygiad yr Iaith Gymraeg*, Caerdydd, 1983.
- Lewis, Henry, *Hen Gerddi Crefyddol*, Caerdydd, 1974.
- Lewis, Henry, *Llawlyfr Cernyweg Canol*, Caerdydd, 1946.
- Lewis, Henry, 'nom : nouodou : neuadd', *BBCS* 15 (1954), 121-2.
- Lewis, Henry, *Yr Eلفen Ladin yn yr Iaith Gymraeg*, Caerdydd, 1943.
- Lewis, Henry & Pedersen, Holger, *A Concise Comparative Celtic Grammar*, Göttingen, 1974.
- Lewis, Henry & Piette, J.R.F., *Llawlyfr Llydaweg Canol (diwygiedig)*, Caerdydd, 1966.
- Lewis, Charlton T. & Short, Charles, *A Latin Dictionary Founded on Andrews' Edition of Freund's Latin Dictionary*, Oxford, 1879.
- Loth, J., *Chrestomathie Bretonne (Armoricain, Gallois, Cornique)*, Paris, 1890.
- Loth, J., *Les mots latins dans les langues brittoniques*, Paris, 1892
- Loth, J., 'Notes étymologiques et lexicographiques', *RC* 41 (1924), 372-412.
- Loth, J., 'Remarques et additions à la grammaire galloise historique et comparée de John Morris Jones', *RC* 36 (1915-16), 108-85.
- Loth, J., 'Remarques et additions à la grammaire galloise historique et comparée de John Morris Jones', *RC* 37 (1917-19), 26-64.
- Loth, J., 'Restes de neutre en brittonique', *RC* 15 (1894), 95-6.
- Lloyd-Jones, J., *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg*, 2 gyfrol, Caerdydd, 1931-1946.
- Lloyd-Jones, J., 'The Welsh Denominatives in *-hau* and *-ha*', *ZCP* 8 (1912), 151-171.
- McManus, Damian, 'A Chronology of the Latin Loan-Words in Early Irish', *Ériu* 34 (1983), 21-71.
- Meyer, Kuno, 'Erschienenene Schriften: Anecdota Oxoniensia, edited by Kuno Meyer', *ZCP* 1 (1897), 171-2.
- Morris Jones, J., *A Welsh Grammar*, Oxford, 1913.
- Morris Jones, J., 'Taliesin', *Y Cymmrodor* 28 (1918), 1-282.

- Nance, R. Morton (gol.), *An English-Cornish and Cornish-English Dictionary*, Cornish Language Board, 1978.
- Nance, R. Morton (gol.), *A New Cornish-English Dictionary*, St. Ives, 1938.
- Padel, O.J., *Cornish Place-Name Elements*, Nottingham, 1985.
- Pedersen, Holger, *Vergleichende Grammatik der keltischen Sprachen*, 2 gyfrol, Göttingen, 1909-1913.
- Pokorny, Julius, 'Some Celtic Etymologies', *The Journal of Celtic Studies* 1 (1950), 129-35.
- Pokorny, Julius, *Indogermanisches etymologisches Wörterbuch*, cyfrol 1, Bern & München, 1949-1959.
- Quin, E. G. (gol. cyffredinol), *Dictionary of the Irish Language: based mainly on Old and Middle Irish materials*, Dublin, 1983.
- Richards, Melville (gol. Jones, Lewis Bedwyr), *Enwau Tir a Gwlad*, Caernarfon, 1998.
- Rowland, Jenny, *Early Welsh Saga Poetry: a Study and Edition of the Englynion*, Cambridge, 1990.
- Russell, Paul, *Celtic Word-Formation: the Velar Suffixes*, Dublin, 1990.
- Russell, Paul, 'Middle Welsh **brodorion**', *BBCS* 32 (1985), 168-71.
- Rhÿs, John & Evans, J. Gwenogvryn (goln), *The Text of the Bruts from the Red Book of Hergest*, Oxford, 1890.
- Rhÿs, John & Evans, J. Gwenogvryn (goln), *The Text of the Mabinogion and Other Welsh Tales from the Red Book of Hergest*, Oxford, 1887.
- Schrijver, Peter, *Studies in British Celtic Historical Phonology*, Amsterdam-Atlanta, 1995.
- Schrijver, Peter, 'Vendryes / Lambert, Lexique étymologique. Lettre D', *Kratylos* 45 (2000), 168-75.
- Schumacher, Stefan, *The Historical Morphology of the Welsh Verbal Noun*, Maynooth, 2000.
- Sihler, Andrew L., *New Comparative Grammar of Greek and Latin*, New York, 2008.
- Simpson, J.A. & Weiner, E.S.C. (goln), *The Oxford English Dictionary*, ail argraffiad, cyfrol 1, Oxford, 1989.
- Sims-Williams, Patrick, 'Gildas and Vernacular Poetry', yn Lapidge, Michael & Dumville, David (goln), *Gildas: New Approaches*, Woodbridge, 1984, tt. 169-92.
- Stokes, Whitley (gol.), *Beunans Meriasek: The Life of Saint Meriasek, Bishop and Confessor: A Cornish Drama*, London, 1872.
- Stüber, Karin, *The Historical Morphology of N-Stems in Celtic*, Maynooth, 1998.
- Toller, T. Northcote (gol.), *An Anglo-Saxon Dictionary based on the manuscript collections of Joseph Bosworth*, Oxford, 1898.

- Trépos, Pierre, *Grammaire bretonne*, trydydd argraffiad, Brest, 1994.
- Trépos, Pierre, *Le pluriel breton*, Brest, 1957.
- Thomas, Graham & Williams, Nicholas (goln), *Bewnans Ke: The Life of Saint Kea*, Exeter, 2007.
- Thomas, Peter Wynn, 'Middle Welsh Dialects: Problems and Perspectives', BBCS 40 (1993), 17-50.
- Thomas, R.J., *Enwau Afonydd a Nentydd Cymru*, y gyfrol gyntaf, Caerdydd, 1938.
- Thomas, R.J. *et al.* (goln), *Geiriadur Prifysgol Cymru*, 4 cyfrol, Caerdydd, 1950-.
- Thurneysen, Rudolf, *A Grammar of Old Irish*, Dublin, 1946.
- Vendryes, J., 'A propos du rapprochement de l'irlandais *claideb* et du gallois *cleddyf*' yn *Mélanges de linguistique offerts à M. Ferdinand de Saussure*, Paris, 1908, tt. 309-21.
- Vendryes, J. *et al.*, *Lexique étymologique de l'irlandais ancien*, 7 cyfrol, Dublin & Paris, 1959-.
- Vendryes, J., 'Remarques de vocabulaire', RC 46 (1929), 252-67.
- Watkins, Calvert, 'The Indo-European word for "day" in Celtic and related topics', *Trivium* 1 (1966), 102-20.
- Williams, Ifor, *Armes Prydein: The Prophecy of Britain: from the Book of Taliesin*, Dublin, 1982.
- Williams, Ifor, *Canu Aneirin*, Caerdydd, 1961.
- Williams, Ifor, *Enwau Lleoedd*, trydydd argraffiad, Lerpwl, 1962.
- Williams, Ifor, 'twrf, torf', BBCS 11 (1944), 91.
- Williams, Ifor, 'twrf, tyrfu, tyrfa', BBCS 11 (1944), 145-6.
- Williams, Ifor, 'Ymddiddan Arthur ac Eryr', BBCS 2 (1925), 269-286.
- Williams, Ifor a Roberts, Thomas (goln), *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoeswyr*, Caerdydd, 1935.
- Wodtko, Dagmar S. *et al.*, *Nomina im Indogermanischen Lexikon*, Heidelberg, 2008.
- Zimmer, Heinrich, 'Keltische studien I. Zur wortforschung', *Zeitschrift für Vergleichende Sprachforschung* 24 (1879), 201-19.
- Zimmer, Stefan, *Studies in Welsh Word-formation*, Dublin, 2000.

Testunau digidol

Electronic Dictionary of the Irish language (eDil) yn www.dil.ie.

Lhuyd, Edward, *Archaeologia Britannica*, Oxford, 1707, tt. 63b, 136a yn
http://books.google.co.uk/books?id=KmsuAAAAQAAJ&dq=archaeologia+britannica&prints+ec=frontcover&source=bl&ots=NTSt2xK7-y&sig=VLR2Zwj151wCEhnjF8NNug9Dd9A&hl=en&ei=VGmJSuy-I566jAeRoPmiCw&sa=X&oi=book_result&ct=result&resnum=1#v=onepage&q=&f=false;
gwelwyd 17/08/2009.

NLW MS 6680B (*Llawysgrif Hendregadredd*) yn
<http://digidol.llgc.org.uk/METS/LLH00001/frames?div=175&subdiv=0&locale=cy&mode=reference>, gwelwyd 20/04/2009.